




Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru

Arolygiad gwasanaethau prawf

Dyddiad arolygiad gwaith maes Tachwedd 2018
Dyddiad cyhoeddi Ebrill 2019

Gradd derfynol ar gyfer NPS Cymru

Da



Arweiniwyd yr arolygiad gan Arolygydd EM Yvette Howson, wedi'i chefnogi gan dim o arolygwyr a staff gweithredol a chorfforaethol. Sally Lester yw'r rheolwr sy'n gyfrifol am y rhaglen arolygu hon. Hoffem ddiolch i bawb o'r rheini a gymerodd ran yn yr arolygiad hwn. Heb eu help a'u cydweithrediad, ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl.

© Hawlfraint y Goron 2019

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn:

www.justiceinspectors.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
Llawr 1af Canolfan Cyfiawnder Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Rhagair	4
Canfyddiadau cyffredinol	5
Crynodeb o ddsbarthiadau	8
Argymhellion	9
Cefndir	10
Ffeithiau cyd-destunol	12
1. Cyflawni sefydliadol	13
1.1. Arwain	14
1.2. Staff	16
1.3. Gwasanaethau	21
1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau	27
2. Goruchwylio achosion	30
2.1. Asesu	30
2.2. Cynllunio	32
2.3. Gweithredu a darparu	33
2.4. Adolygu	34
3. Gwaith penodol i'r NPS	36
3.1. Adroddiadau llys a dyrannu achosion	36
3.2. Gwaith statudol gyda dioddefwyr	37
Atodiad 1: Methodoleg	39
Atodiad 2: Canlyniadau arolygu: parth dau a thri	41
Atodiad 3: Model gweithredu a'r map	44
Atodiad 4: Rhestr termau	48

Rhagair

Gwelsom arweinwyr deinamig ac yn effeithiol, yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth o ansawdd. Mae gan staff lawer o barch tuag at arweinwyr. Mae staff yn teimlo bod diwylliant dysgu mewn lle, a bod datblygiad proffesiynol yn cael ei annog. Mae systemau effeithiol mewn lle i fonitro ac i wella perfformiad ac roedd y proses o ddysgu gwersi drwy adolygiadau achosion, archwiliadau a chwynion yn effeithiol.

Mae prinder swyddogion prawf yn genedlaethol. Mae angen strategaeth genedlaethol draws sefydliadol, i adeiladu'r proffesiwn i'r lefelau sydd eu hangen yn genedlaethol ac yn yr NPS a'r CRC. Er bod arweinwyr yn yr adran hon wedi gwneud eu gorau i liniaru'r straen yn gysylltiedig â baich gwaith gormodol, y gwir yw bod gan rai swyddogion prawf faich gwaith sy'n annerbyniol o uchel.

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn dda ac mae'n cynnwys Llywodraeth Cymru gan fod rhai gwasanaethau wedi'u datganoli. Mae ystod eang o wasanaethau mewn lle i ddiwallu anghenion yn gysylltiedig â throedd, ond mae mynediad at y gwasanaethau mewn rhai ardaloedd gwledig yn fwy cyfyngedig, ac mae'r NPS yn gwneud defnydd annigonol o rai gwasanaethau sydd ar gael o'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol.

Canfuom fod adroddiadau cyn dedfrydu yn cynorthwyo barnwyr ac ynadon i benderfynu ar y ddedfryd mwyaf priodol, ac yn dilyn hynny, roedd unigolion yn rhan ddigonol o'r broses cynllunio a chyflwyno eu defryd eu hunain. Roedd asesiadau wedi nodi a dadansoddi ffactorau yn gysylltiedig â throedd ac roedd cynllunio dedfrydau wedi'i ganolbwyntio ar gadw eraill yn ddiogel. Dechreuodd y broses oruchwyliaeth yn brydlon ac roedd cynnydd yr unigolyn trwy'r ddedfryd wedi'i gadw o dan adolygiad. Roedd y gwasanaeth a ddarparwyd i ddiodefwyr a oedd wedi dewis ymuno â'r cynllun cysylltu â diodefwyr yn ardderchog.

Er hynny, roedd diffygion. Nid oedd gwybodaeth gan asiantaethau diogelu plant ac oedolion wedi cael ei gofyn amdani yn ddigon cyson. Nid oedd gwybodaeth berthnasol am unigolion dan oruchwyliaeth wedi'i rhannu fel mater o drefn gyda'r carchardai neu'r heddlu. Mewn rhai achosion, nid oedd goruchwyliaeth wedi'i chanolbwyntio'n ddigonol ar fynd i'r afael â ffactorau yn gysylltiedig â throedd. Ac roedd oedi hir cyn i unigolion allu ddechrau rhaglenni ymddygiad troseddol. Mae oedi o'r natur hon yn gwbl annerbyniol: mae'n tansellio yn ddifrifol gobeithion llwyddo y rhaglen ei hun.

Fel yr ydym wedi adrodd ynghynt, nid yw'r cytundeb rheoli cyfleusterau canolog yn gweithio yn dda. Mae gwelliannau wedi bod yn ddiweddar, ond mae'r flaenoriaeth oedd wedi'i rhoi i gywiriadau a'r cyfnod amser i gwblhau gwaith i'r safon ofynnol yn peidio â chyrraedd gofynion y cytundeb.

Yn gyffredinol, mae'r adran yn perfformio i safon dda. Gobeithir y bydd ein canfyddiadau ac argymhellion yn helpu'r adran i wella ymhellach.



Y Fonesig Glenys Stacey
Prif Arolygydd Prawf

Canfyddiadau cyffredinol

Yn gyffredinol, mae NPS Cymru wedi'i raddio yn: **Da**. Mae'r radd hon wedi'i phenderfynu drwy arolygu'r darparwr hwn mewn tri maes o'i waith, a elwir yn 'parthau'. Gweler isod manylion canfyddiadau a graddau dilynol y tri parth:



Dyma oedd ein prif ganfyddiadau am y sefydliad:

- **Mae'r tim arwain yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth ansawdd uchel.**

Mae NPS Cymru yn cael ei arwain yn dda ac mae ganddo strategaeth dda am ddarparu gwasanaeth ansawdd uchel. Mae staff yn deall y cynlluniau busnes a'r cynlluniau cyflawni. Mae dull cydweithredol o weithio gyda sefydliadau eraill a chysylltiad effeithiol gyda rhanddeiliaid. Mae rhai gwasanaethau yng Nghymru wedi'u datganoli, sy'n gofyn am ymgysylltu â Llywodraeth Cymru. Mae'r risgiau i'r gwasanaeth yn cael eu deall ac mae cynlluniau mewn lle i'w lliniaru.

- **Mae gan rai swyddogion prawf lwythi gwaith rhy uchel.**

Fel yn achos adrannau NPS eraill, mae prinder swyddogion prawf cymwysedig yng Nghymru. Nid yw'r swyddi gweigion am raddau eraill o staff yng Nghymru mor ddifrifol. Wrth edrych ar raddau swyddogion prawf, canfuom fod gan fwy na hanner o swyddogion prawf lwythi gwaith rhy uchel iddynt ddarparu gwasanaeth ansawdd uchel yn gyson.

Mae arweinwyr wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau gwahanol i fynd i'r afael â'r problem yn cynnwys strategaethau i gefnogi staff rheng flaen, cyflogi staff asiantaeth ac yn talu goramser i staff parhaol, yn ogystal â chreu timau gwarchodaeth arbenigol a defnyddio swyddogion gwasanaethau prawf (PSOs) i gefnogi rheolwyr achos. Er bod prinder staff, mae staff yn perfformio yn dda ac mae cyfraddau salwch yn isel.

- **Mae datblygiad proffesiynol yn cael ei annog ond nid yw e ar gael bob amser.**

Mae datblygiad proffesiynol yn cael ei annog am yr holl staff, ond roedd rhai staff yn teimlo nad oedd mynediad ganddynt at yr hyfforddiant priodol am eu swydd neu eu rôl. Dyna oedd yr sefyllfa i'r rhai yr oedd ganddynt lawer o flynyddoedd o brofiad. Mae digon o sylw yn cael ei roi at fonitro a gwella lefelau ymgysylltu â staff. Mae'r adran wedi cynhyrchu canllawiau gweithredu pwrpasol i sicrhau sgiliau proffesiynol ei staff.

- **Mae ystod o wasanaethau ar gael i ddiwallu anghenion yn gysylltiedig â throsedd, ond nid yw'r adran yn gwneud y defnydd mwyaf o'r gwasanaethau a gomisiynir trwy'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC).**

Mae gan NPS Cymru asesiad cyfredol o'r proffil risg ac anghenion y boblogaeth troseddwr. Mae ystod o wasanaethau ar gael, mae rhai wedi'u comisiynu drwy'r cerdyn cyfradd CRC (cyfarwyddiadur gwasanaethau) ac mae rhai wedi'u comisiynu ar y cyd ag asiantaethau eraill. Mae rhai ymyriadau yn gweithio yn dda ac mae ystod o wasanaethau ar gael i fenywod. Er hynny, canfuom nad yw staff yn gwneud y defnydd mwyaf o'r holl gwasanaethau a gomisiynir trwy'r CRC. Mae absenoldeb staff, a'r diffyg hyfforddiant cenedlaethol ar gyfer hwyluswyr rhaglenni yn yr NPS, wedi arwain at restrau aros yn annerbyniol o hir ar gyfer rhaglenni achrededig.

Mae perthnasoedd gweithio da gyda'r CRC a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu (PCCs), partneriaid yn y Trefniadau Amlasiantaethol Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) a'r swyddogion heddlu sy'n rhan o Reoli Troseddwr Rhyw a Throseddwr Treisgar (MOSOVO). Er gwaethaf hyn, nid oedd rhannu gwybodaeth i reoli risg o niwed i unigolion bob amser yn effeithiol. Nid yw'r broses sydd mewn lle yn cael ei deall neu ei gweithredu yn gyson gan staff NPS.

- **Mae gwybodaeth rheoli yn gynhwysfawr. Nid yw'r contract rheoli cyfleusterau canolog yn gweithio yn dda.**

Mae canllawiau a pholisiau mewn lle ac yn galluogi'r staff i ddarparu gwasanaeth ansawdd uchel. Defnyddir systemau effeithiol i fonitro ac i ysgogi gwelliant. Mae gan yr holl staff ddealltwriaeth dda o berfformiad yr adran.

Mae'r systemau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (ICT) yn galluogi'r staff i gynllunio ac i gyflawni gwaith yn brydlon. Yn gyffredinol, mae'r gwersi a ddysgwyd o Droseddau Pellach Difrifol a'r arolygiadau yn cael eu gweithredu yn ymarferol.

Nid yw'r contract rheoli cyfleusterau canolog yn cael ei ddarparu i'r safon ofynnol. Yn ddiweddar sefydlwyd tasglu cenedlaethol i ddatrys achosion sy'n hollbwysig i'r busnes wedi'u huwchgyfeirio. Er hynny, mae'r flaenoriaeth a roir i dasgau a'r amser y mae'n ei gymryd i gyflawni gwaith yn aros yn broblematic. Mae'r adran yn ymwybodol nad yw bob swyddfa ar gael yn ddigonol i staff a defnyddwyr gwasanaeth.

Oherwydd y ddarpariaeth anghyson o staff (o'r darparwr dan contract) i gyflenwi trefniadau tu allan i oriau ar gyfer safleoedd cymeradwyedig, mae'r adran wedi cyflogi aelod ychwanegol o staff i weithio bob nos fel cynllun wrth gefn ar gost yr adran ei hunan.



Goruchwylioachosion

Ein canfyddiadau allweddol am oruchwylio achosion oedd fel sy'n dilyn:

- **Roedd ymarferwyr yn gallu deall a dadansoddi'r rhesymau bod unigolion yn troseddu.**

Roedd swyddogion cyfrifol yn cael unigolion i fod yn rhan o'u hasesiadau, yncanolbwyntioarffactorau yn gysylltiedig â'u troseddau. Ystyriwyd amrywiaeth ac amgylchiadau personol yr unigolyn yn briodol. Defnyddiwyd gwybodaeth gan ffynonellau eraill, lle bo'n berthnasol. Gwnaeth yr ymarferwyr asesu yn gywir y risg a'r risg bosibl o niwed i eraill.

- **Roedd cynllunio yn gyffredinol yn dda ac roedd yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel.**

Roedd unigolion wedi'u cynnwys yn y broses o gynllunio eu dedfryd. Gwnaeth y cynlluniau ystyried amgylchiadau personol a allai gael effaith ar ymgysylltu a chydymffuriad. Adlewyrchodd y cynlluniau ffactorau yn gysylltiedig â throseddau gan flaenoriaethu'r rhai mwya pwysig. Roedd y cynllunio i gadw pobl eraill yn ddiogel yn foddhaol.

- **Roedd y cyswllt cyntaf yn brydlon, ond nid oedd digon o ffocws bob amser ar fynd i'r afael ag anghenion yn gysylltiedig â throseddu.**

Roedd y cyswllt cyntaf gydag unigolion dan oruchwyliaeth wedi'i wneud yn brydlon ar ôl i'r broses ddedfrydu ddigwydd. Roedd cysylltu gyda'r rheini yn y gymuned a'r rheini yn y ddalfa yn dda ond nid oedd digon o ffocws bob amser ar waith yn ymwneud â throseddau. Roedd yr amser aros cyn i unigolyn allu dechrau rhaglen achrededig yn rhy hir mewn rhai achosion.

- **Roedd adolygiadau cynnydd wedi'u diweddarau yn rheolaidd**

Roedd asesiadau a chynlluniau wedi'u cadw dan adolygiad ac roedd unigolion yn rhan o'r broses o adolygu eu cynnydd. Gwnaethpwyd newidiadau i'r cynllun mewn ymateb i newidiadau am risg o niwed i eraill. Roedd digon o sylw yn yr adolygiadau am gadw eraill yn ddiogel.



Gweler isod ein prif ganfyddiadau am weithgareddau craidd yn berthnasol i'r sefydliad hwn:

- **Adroddiadau llys a dyrannu achosion**

Mae gan yr adran drefniadau boddhaol mewn lle am baratoi adroddiadau llys. Roedd yr adroddiadau o safon dda. Mae arweinydd strategol yr NPS yn cwrdd â rheolwyr y tîm llys yn aml. Dyrannwyd achosion yn brydlon i'r darparwr prawf, ond nid oedd digon o wybodaeth mewn rhai achosion i alluogi'r darparwr i ddechrau'r broses o oruchwyllo'r unigolyn. Nid oedd gwybodaeth diogelu plant ac oedolion yn cael ei gofyn amdani bob amser, ac nid oedd asesiadau risg o niwed difrifol wedi'u cwblhau mewn pob achos perthnasol.

- **Gwaith dioddefwyr statudol**

Mae gan yr adran bump Uned Cysylltu â Dioddefwyr sy'n rheoli cyfanswm o 2,466 o achosion byw. Darparwyd gwasanaeth rhagorol i'r rhai a ddewisodd ymuno â'r cynllun cysylltu â dioddefwyr. Mae dioddefwyr yn derbyn gwybodaeth glir am beth i'w disgwyl gan y system cyfiawnder troseddol. Mae staff yn yr unedau yn derbyn diweddariadau rheolaidd am unigolion sy'n cael eu dedfrydu a chael gwybodaeth am amodau trwyddedau. Mae swyddogion cyfrifol yn gweithio gyda gweithwyr cyswllt dioddefwyr yn dda, gan rannu gwybodaeth am yr unigolyn yn cael ei ryddhau o ddalfa. Mae gweithwyr cyswllt dioddefwyr yn cymryd rhan briodol yng ngwaith MAPPA.

Crynodeb o ddsbarthiadau

Gradd derfynol ar gyfer NPS Cymru	Da
--	-----------

1	Cyflawni sefydliadol	
1.1	Arwain	Da
1.2	Staff	Angen gwelliant
1.3	Gwasanaethau	Da
1.4	Gwybodaeth a chyfleusterau	Angen gwelliant

2	Goruchwylio achosion	
2.1	Asesu	Da
2.2	Cynllunio	Da
2.3	Gweithredu a darparu	Da
2.4	Adolygu	Rhagorol

3	Gwaith penodol i'r NPS	
3.1	Adroddiadau llys a dyrannu achosion	Da
3.2	Gwaith dioddefwyr statudol	Rhagorol

Argymhellion

O ganlyniad i'n canfyddiadau arolygu, rydym wedi gwneud naw argymhelliad yr ydym yn credu, os gweithredir, y byddant yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwasanaethau prawf yng Nghymru.

Dylai NPS Cymru wneud y canlynol:

1. adolygu a rheoli llwythi gwaith i sicrhau bod gwaith yn cael ei ddsbarthu yn deg ac yn effeithiol
2. gwneud defnydd priodol ac effeithiol o'r gwasanaethau a ddarperir wedi'u comisiynu gan y CRC
3. gwella'r broses am gael gwybodaeth berthnasol gan unedau gwasanaethau plant a'r unedau cam-drin domestig mewn pob achos perthnasol
4. ymgymryd ag asesiad risg o niwed mewn pob achos perthnasol
5. gwella'r defnydd o'r gronfa ddata VISOR i rannu gwybodaeth gyda'r heddlu a'r carchardai
6. sicrhau bod unigolion yn gallu dechrau rhaglenni achrededig yn fuan ar ôl cael eu dedfrydu, neu mor fuan â maent yn barod i'w wneud
7. sicrhau bod adnoddau'r PSO yn cael eu defnyddio yn effeithiol.

Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS):

8. recriwtio digon o staff i lenwi swyddi gweigion y NPS yng Nghymru a Lloegr.

Dylai Gweinyddiaeth Cyfiawnder:

9. sicrhau bod y broses ar gyfer adolygu gorchmynion gwaith yn y contract rheoli cyfleusterau yn blaenoriaethu amddiffyn y cyhoedd.

Esbonio gwaith y gwasanaethau prawf

Mae rhyw 260,000 o oedolion yn cael eu goruchwyllo yn flynyddol gan wasanaethau prawf.¹ Mae gwasanaethau prawf yn goruchwyllo unigolion sy'n gwneud gorchmynion cymunedol, yn darparu gwasanaethau ailsefydlu i droseddwr tra eu bod yn y carchar (ymlaen llaw o'u rhyddhau), ac yn goruchwyllo pob unigolyn wedi'i ryddhau o'r carchar am o leiaf 12 mis.²

Er mwyn amddiffyn y cyhoedd, mae staff gwasanaethau prawf yn asesu ac yn rheoli'r risgiau y mae troseddwr yn eu cyflwyno i'r gymuned. Maent yn helpu yn y broses o adsefydlu troseddwr trwy ymdrin â phroblemau megis camddefnyddio cyffuriau ac alcohol a'r diffyg cyflogaeth neu diffyg tai, i leihau'r posibilid o ailddosod. Maent yn monitro i weld a yw unigolion yn cydymffurfio â gofynion y llys, i sicrhau eu bod yn cadw at y ddedfryd. Os bydd troseddwr yn methu â chydymffurfio â'r gofynion, bydd staff gwasanaethau prawf fel arfer yn adrodd hyn neu ofyn iddynt gael eu galw yn ôl i'r carchar.

Ar hyn o bryd, darperir y gwasanaethau hyn gan Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol cyhoeddus (NPS) a 21 Cwmni Adsefydlu Cymunedol preifat (CRCs) sy'n darparu gwasanaethau dan gontract. Mae'r llywodraeth yn bwriadu newid y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau prawf, ac mae wrthi yn ystyried modelau darparu amgen, yn dilyn ymarfer ymgynghori.

Mae'r NPS yn cynghori'r llys am faterion dedfrydu pob troseddwr, yn yr achosion hynny lle mae'r llys yn gofyn am wybodaeth, ac yn rheoli'r troseddwr sy'n cyflwyno risg uchel neu risg uchel iawn o niwed difrifol neu'r troseddwr sy'n cael eu rheoli dan Trefniadau Amlasiantaethol Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPAs). Mae CRCs yn goruchwyllo y mwyafrif o droseddwr eraill sy'n cyflwyno risg isel neu risg ganolig o niwed.

Mae'r NPS yn cynnwys saith adran: chwech adran yn Lloegr ac un adran yng Nghymru. Mae gwasanaethau yn cael eu darparu yn fewnol, wedi'u comisiynu gan y CRC a wedi'u darparu ar y cyd ag asiantaethau allanol, yn cynnwys cyfleusterau rhad ac am ddim. Fel sefydliad cenedlaethol, mae'r NPS wedi safoni'r prosesau a'r canllawiau am bolisiau a'r ymarfer. Mae'r dogfennau hyn ar gael i'r holl staff drwy blatfom ar-lein o'r enw EQuIP.

NPS Cymru

Mae NPS Cymru yn gofalu am Gymru gyfan, yn cynnwys ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig sy'n dod â heriau a chyfleoedd gwahanol. Mae pump uned drosglwyddo leol, yn gofalu am 22 awdurdod lleol. Mae gan NPS Cymru yr un ffiniau â'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru (CRC). Mae pedwar safle wedi'i gymeradwyo (APs) ac mae pump carchar, un o'r rhain yn cael ei reoli yn breifat.

Am fwy o wybodaeth am yr adran hon, gweler Atodiad 3 yr adroddiad hwn.

¹Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2018). *Ystadegau Llwyth Achosion Rheoli Troseddwr ar 31 Mawrth 2018*.

²Mae'r rheini i gyd sydd wedi'u dedfrydu, am droseddau a gyflawnwyd ar ôl gweithredu *Deddf Adsefydlu Troseddwr 2014*, i fwy nag un diwrnod a llai na 24 mis yn y ddalfa, yn cael eu goruchwyllo yn y gymuned am 12 mis ar ôl rhyddhad. Gall eraill sy'n cyflawni dedfrydau gwarchodol hirach gael cyfnodau hirach o'ruchwyllo ar drwydded.

Rôl Arolygiaeth Prawf EM

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yw'r arolygydd annibynnol o wasanaethau prawf a throeddau ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gydag oedolion a phlant a gyflawnir gan y gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth troeddau ieuenctid. Rydym yn arolygu'r gwasanaethau hyn ac yn cyhoeddi adroddiadau arolygu. Rydym yn tynnu sylw at ymarfer da ac ymarfer gwael, ac yn defnyddio ein data a'n gwybodaeth i ysgogi gwasanaethau ansawdd uchel. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth, ac yn siarad yn annibynnol.

Safonau Arolygiaeth Prawf EM

Mae sefydliadau sy'n cael eu harwain a'u rheoli yn dda yn fwy tebygol o gyflawni eu hamcanion. Rydym yn arolygu yn erbyn deg safon. Mae'r safonau hyn yn seiliedig ar fodelau a fframweithiau wedi hen sefydlu, sydd yn seiliedig ar dystiolaeth, dysg a phrofiad. Maent wedi'u cynllunio i ysgogi gwelliannau yn yr ansawdd o waith sy'n cael ei wneud gyda phobl sydd wedi troeddu.³

³ Gweler isod safonau Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi:
<https://www.justiceinspectores.gov.uk/hmiprobation/about-our-work/our-standards-and-ratings/>

Ffeithiau cyd-destunol

106,725	Cyfanswm o unigolion dan oruchwyliaeth brawf gan y NPS yng Nghymru a Lloegr ⁴
6,855	Nifer o unigolion sy'n cael eu goruchwyllo gan NPS Cymru ⁴
4,871	Nifer o unigolion yn gymwys ar gyfer MAPPA sy'n cael eu rheoli gan NPS Cymru ⁵
47.3%	Cyfran o ddefnyddwyr gwasanaethau NPS Cymru sydd wedi ail-droseddu ⁶
79%	Cyfran o unigolion a gofnodwyd fel rhai wedi cwblhau eu gorchmynion cymunedol neu orchmynion dedfrydau ataliedig gyda'r NPS yn llwyddiannus. Roedd y ffigur perfformiad ar gyfer Cymru a Lloegr yn 77%, yn erbyn targed o 75%. ⁷
51%	Cyfran o drwyddedau wedi'u cyflawni yn bendant a, lle bo'n briodol, chyfnodau goruchwyllo cyn-dedfrydu gan y NPS. Roedd y ffigur perfformiad ar gyfer Cymru a Lloegr yn 55%, yn erbyn targed o 65%. ⁸
100%	Cyfran o adroddiadau cyn-dedfrydu wedi'u cwblhau gan y NPS o fewn yr amserlenni a osodwyd gan y llys. Roedd y ffigur perfformiad ar gyfer Cymru a Lloegr yn 100%, yn erbyn targed o 95%. ⁹

⁴Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018) *Ystadegau Llwyth Achosion Rheoli Troseddwy'r ar 30 Mehefin 2018*.

⁵Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2018). *Adroddiad Blyneddol Trefniadau Amlasiantaethol Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) 2017-2018*.


⁶Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2018). *Ystadegau ail-droseddu profedig, carfan Hydref i Ragfyr 2016*

⁷Gweinyddiaeth Gyfiawnder. (2018). *Gwasanaeth NPS Lefel 18, Ystadegau chwarterol perfformiad cymunedol, Ebrill 2017-Mehefin 2018, Ch 1*.

⁸Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2018). *Gwasanaeth NPS Lefel 19, Ystadegau chwarterol perfformiad cymunedol, Ebrill 2017-Mehefin 2018, Ch 1*.

⁹Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2018). *Gwasanaeth NPS Lefel 1, Ystadegau chwarterol perfformiad cymunedol, Ebrill 2017-Mehefin 2018, Ch 1*.

1. Cyflawni sefydliadol




Mae gan y tim uwch reolwyr strategaeth glir am ddarparu gwasanaeth ansawdd uchel. Mae staff yn deall y strategaeth. Mae mynd i'r afael â'r prinder staff yn flaenoriaeth. Mae strategaethau mewn lle i leihau effaith llwythi gwaith uchel ond mae'r llwythi gwaith mewn rhai rhannau o'r adran yn afresymol. Mae ystod eang o wasanaethau ar gael yn yr adran, rhai ohonynt wedi'u comisiynu ar y cyd gydag asiantaethau eraill, ond nid yw'r staff yn gwneud y defnydd mwyaf o'r gwasanaethau a ddarperir gan y CRC. Mae'r gwasanaethau a ddarperir i'r llysoedd a'r dioddefwyr troseddau difrifol yn gweithio yn dda. Mae staff yn deall sut mae eu gwaith yn cael effaith ar berfformiad yr adran. Mae polisïau a chanllawiau mewn lle ac ar gael i'r staff. Mae technoleg gwybodaeth wedi cael ei ddiweddarau ac mae'n darparu gwasanaeth gwell. Mae darparu contract rheoli cyfleusterau canolog yn annigonol. Nid yw'r broses uwchgyfeirio yn effeithiol, gan fod gormod o atgyfeiriadau blaenoriaeth uchel heb gael eu datrys.

Cryfderau:

- Mae'r strwythur rheoli, strategaeth a'r cynlluniau cyflawni yn galluogi'r adran i ddarparu gwasanaeth ansawdd-uchel.
- Mae parch mawr tuag at arweinwyr adrannol yn y sefydliad.
- Mae'r ymgysylltu â rhanddeiliaid yn effeithiol.
- Mae mesurau perfformiad mewn lle i ysgogi gwelliant.
- Mae ystod o wasanaethau ar gael i ymateb i anghenion yn gysylltiedig â throseddu.
- Mae gwersi yn cael eu dysgu o waith arolygu ac wrth adolygu Troseddau Pellach Difrifol.

Meysydd i'w gwella:

- Oherwydd prinder swyddogion prawf, mae'r llwythi gwaith yn rhy uchel mewn rhai rhannau o'r adran.
- Nid yw'r gwasanaethau a gomisiynir gan y CRC yn cael eu defnyddio yn llawn.
- Nid yw'r contract rheoli cyfleusterau canolog yn cael ei ddarparu i'r safon ofynnol.

1.1. Arwain	Da
Mae arweiniad y sefydliad yn cefnogi ac yn hyrwyddo darparu gwasanaeth ansawdd uchel, personol ac ymatebol ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth.	

A oes gweledigaeth a strategaeth glir mewn lle i ddarparu gwasanaeth ansawdd uchel ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth?

Mae amcanion strategol y NPS wedi'u hamlinellu yng nghynllun busnes blynyddol yr HMPPS a'u gweithredu drwy fodel gweithredu cenedlaethol. Mae pob adran o'r NPS yn cyflwyno cynllun busnes lleol yn amlinellu sut y bydd y model yn cael ei ddarparu. Mae'r cynllun ar gyfer Cymru yn cynnwys blaenoriaethau cenedlaethol, yn comisiynu amcanion a blaenoriaethau lleol. Mae'rstrwythur rheoli, proses a'r cynlluniau cyflawni yn glir ac mae proses mewn lle ar gyfer monitro ac yn adolygu cynnydd.

Mae pump uned drosglwyddo leol (LDUs) yn yr adran. Mae pob uned yn cael ei harwain gan uwch reolwyr yn gyfrifol am gynnal cysylltiadau strategol lleol. Yn ychwanegol, mae penaethiaid yr LDUs yn cael arweiniad strategol adrannol am weithredu meysydd penodol y busnes, megis y cynllun iaith Gymraeg, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a gwaith di-dâl. Mae pedwar rheolwr uwch arall yn gyfrifol am waith strategol ledled Cymru. Dywedodd rheolwyr tîm wrthym fod arweinwyr adrannol yn darparu eglurdeb am gyfeiriad y sefydliad.

Mae uwch reolwyr yn dangos ymrwymiad at ddarparu gwaith ansawdd uchel gyda'r rheini dan oruchwyliaeth. Dywedodd bron pob un o'r swyddogion cyfrifol a gyfwelwyd fod yr adran yn blaenoriaethu ansawdd. Gwelsom dim blaengar a brwdfrydig sy'n cefnogi staff drwy flaenoriaethu adnoddau ar gyfer ei staff gwasanaethau rheng flaen. Mae staff yn deall y model gweithredu. Nid oedd y prif nod 'i fod y darparwr gorau o wasanaethau prawf' wedi ei dyfynnu, ond roedd y staff a wnaethom eu cyfwrdd yn deall yr ethos o ddarparu gwasanaeth o ansawdd. Mae'r ymgysylltu â'r staff yn dda - yn uwch ar nifer o fesurau na'r NPS yn gyffredinol. Ymatebodd arweinwyr i faterion a godwyd yn arolwg staff Tachwedd 2017 drwy baratoi ac yn cyflawni cynllun gweithredu. Mae'r ymgysylltu â'r staff a'r strategaeth gyfathrebu yn gynhwysfawr ac mae nifer o fforymau staff sy'n rhoi cyfle i'r staff gwrdd â'i gilydd ac i roi adborth.

Roedd canlyniadau arolwg defnyddwyr gwasanaethau blynyddol yn Nachwedd 2017 yn gadarnhaol, er dywedodd y rheini a gymerodd ran eu bod eisiau rhan fwy yn y broses gynllunio dedfryd, roedd angen mwy o gefnogaeth arnynt ynghylch addysg a gwaith, a gwnaeth yr arolwg amlygu rhai rhwystrau a wnaeth atal ymgysylltu effeithiol rhag ddigwydd. Mewn ymateb i'r arolwg, cyflwynodd yr adran ganllawiau ymarfer i gefnogi staff gweithredol i gynnwys unigolion yn fwy wrth gynllunio dedfryd. Mae gan bob pennaeth LDU gyfrifoldeb am fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn i ymgysylltu â nhw yn lleol, mae cynnydd yn cael ei fonitro drwy gynllun gweithredu Cymru.

Mae gan HMPPS Cymru brosiect cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau. Mae amcanion y prosiect yn cynnwys adolygu ffyrdd presennol o gynnwys unigolion a nodi meysydd i'w gwella. Yn y bôn, y bwriad yw gwrandao ar a deall anghenion rheini sy'n cael eu goruchwyllo er mwyn addasu darparu gwasanaeth ar eu cyfer.

Mae dull integredig at ddarparu gwasanaeth yn caniatáu i HMPPS Cymru weithio yn y gymuned ac yn y ddalfa. Mae perthnasoedd gyda rhanddeiliaid yn cael eu gweld yn hollbwysig i ddarparu gwasanaeth yn effeithiol. Mae strategaeth genedlaethol gynhwysfawr ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ar lefel genedlaethol, adrannol a

lleol. Mae'r adran yn cael ei chynrychioli mewn grwpiau strategol perthnasol, yn cynnwys y rhai hynny sy'n cynnwys undebau llafur, carchardai, CRCs, partneriaethau diogelwch cymunedol, a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau (PCCs). Mae'r adran yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru hefyd ar ddarparu gwasanaethau datganoledig.

A yw risgiau posibl at ddarparu gwasanaeth wedi'u rhagweld a'u cynllunio amdanynt ymlaen llaw?

Mae dealltwriaeth glir o'r risgiau posibl at ddarparu gwasanaeth ansawdd uchel yn y gofrestr risg. Mae pob risg yn cael ei disgrifio a'i graddio o ran tebygolrwydd ac effaith, ac mae'n cael ei dosbarthu i uwch reolwr cyfrifol. Mae'r gwaith lliniaru yn cael ei ddarparu o fewn amserlenni a gytunwyd, ac mae'r gofrestr yn cael ei hadolygu a'i diweddarau yn weithredol fel y bo'n ofynnol.


A yw'r model gweithredu presennol yn cefnogi darparu gwasanaeth effeithiol, yn diwallu anghenion pob defnyddiwr gwasanaeth?

Mae'r model gweithredu NPS yn disgrifio sut bydd gwasanaethau yn cael eu darparu trwy'r canlynol: y llysoedd; goruchwyliaeth gymunedol; gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr; gwasanaethau troseddau ieuencid; ymyriadau gyda phobl sydd wedi cyflawni troseddau rhywiol; gwasanaethau gweinyddol; a'r strwythur rheoli. Mae Cyfarwyddiadau Prawf (PIs) canolog yn penderfynu sut dylai'r broses weithredu gael ei dilyn. Mae cynlluniau busnes a chyfarwyddiadau prawf (PIs) ar gael i bob aelod o staff â mynediad i EQuIP, system wefan y NPS.

Mae'r model gweithredu yn cefnogi dull personol a chyswllt pwrpasol cyson gydag unigolion sy'n cael eu goruchwyllo. Mae gan bob person ymarferwr penodol sy'n gyfrifol am waith achos unigol. Mae'r rheolwr tîm yn ystyried nifer o ffactorau risg cyn penderfynu am ddyrannu.

Mae'r strwythur staffio cenedlaethol yn cynnwys timau datblygu ansawdd. Mae swyddogion datblygu ansawdd (QDOs) yn canolbwyntio ar hyrwyddo ymarfer effeithiol, yn gwneud sylwadau a gweithgareddau sicrhau ansawdd eraill. Mae gan QDOs rôl o fewn gradd swyddog prawf, ond nad oes ganddynt lwyth achos.

Mae NPS Cymru wedi gohirio'r broses o recriwtio cyflenwad llawn o QDOs i un QDO ar gyfer pob LDU nes llwythi baich gwaith yn fwy rhesymol. Yn y cyfamser, mae rheolwyr ansawdd a rheolwyr craffu, sy'n gweithio yn yr uned fusnes amddiffyn y cyhoedd, yn gwneud rhywfaint o waith yn hyrwyddo ymarfer effeithiol. Mae'r penderfyniad hwn yn gwyro oddi ar y model gweithredu presennol, ond roedden ni'n meddwl ei fod yn ateb ymarferol dros dro i'r sefyllfa staffio presennol, ac yn blaenoriaethu cefnogaeth ar gyfer staff rheng flaen.

1.2 Staff	Angen gwelliant
Mae gan staff o fewn y sefydliad awdurdod i ddarparu gwasanaeth ansawdd uchel, personol ac ymatebol ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth.	

Daethom i'r casgliad fod llwyth gwaith rhai aelodau'r staff yn afresymol. Fel yn achos adrannau NPS eraill, mae prinder swyddogion prawf cymwysedig yng Nghymru. Ar adeg yr arolygiad, roedd 235 o swyddogion prawf mewn gwaith yn erbyn targed o 298. Nid yw'r swyddi gweigion am raddau eraill o staff yng Nghymru mor ddifrifol.

Mae swyddi gweigion yn cael effaith ar lwyth gwaith staff presennol. Dywedodd fwy na chwarter o'r swyddogion cyfrifol a gyfwelwyd bod eu llwyth gwaith yn afresymol. Dywedodd uwch reolwyr a rheolwyr tîm (sy'n rheoli cyfartaledd o 12 staff), staff gweinyddol, a staff llys (â gwaith sy'n cael ei gyfrif yn wahanol) fod eu lefelau llwyth gwaith yn codi a gostwng, ond roedd yn rhesymol ar y cyfan.

Dywedodd rhai swyddogion cyswllt dioddefwyr wrthym fod eu llwyth gwaith yn afresymol. Eu llwyth achos cyfartalog yw 150, ond mae gan rai fwy na 240 achos byw ac mae hynny yn hollol afresymol. Yn yr arolwg staff Gwasanaeth Sifil, gofynnwyd i staff NPS ledled Cymru a oedd ganddynt lwyth gwaith rhesymol; dywedodd fwy na hanner ohonynt (52 y cant) bod eu llwyth gwaith yn rhesymol, pump y cant yn fwy na'r ffigiwr ar gyfer y NPS fel cyfanwaith.

Edrychom ar adnodd rheoli llwyth gwaith yr adran a ddefnyddir i fonitro llwyth achosion tîm a llwyth achosion LDU. Mae gan hanner (44 y cant) y nifer¹⁰ o swyddogion prawf-yn enwedig mewn LDUs gogledd Cymru a de Cymru-llwyth gwaith sy'n fwy na 100 (wedi'i fesuro gan yr adnodd), gyda rhai yn fwy na 170 y cant. Yn ein harolygiad, gwelsom fod nifer o asesiadau System Rheoli Risg Gweithredol (ARMs) heb gael eu cwblhau o fewn yr amserlen ofynnol o chwe wythnos. Dywedodd swyddogion prawf fod hyn wedi digwydd oherwydd pwysau llwyth gwaith. Dywedodd ychydig o staff wrthym eu bod wedi gweithio gartref i ddal lan ar waith oedd dros ben.

Mae pwyllgor cynllunio gweithlu yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Adrannol. Mae'r pwyllgor yn cyflawni rhagolygon cynllunio yn aml ar gyfer pob gradd staff, yn blaenoriaethu recriwtio yn y meysydd lle mae wir angen. Canfuom fod arweinwyr yn rheoli lleoliad staff yn ofalus i gynyddu cynhyrchiant ac i gefnogi staff rheng flaen.

Mae'r adran yn gweithredu strategaeth reoli galw NPS, yn cynnwys cyflogi staff asiantaeth, talu goramser i staff, cynnal ymgyrchoedd recriwtio allanol a threfnu nosweithiau agored i annog ceisiadau am swyddi gweigion swyddogion prawf o dan hyfforddiant. Lle bo angen, maent hefyd yn adleoli swyddogion prawf cymwysedig sydd ddim ag achosion - er enghraifft, QDOs. Mae rhai LDUs yn cynnal sesiynau gweinyddol bob mis, yn galluogi'r staff i gwblhau hyfforddiant, neu i ddiweddarau asesiadau. Mae NPS Cymru wedi darparu hyfforddiant gwydnwch hefyd, wedi'i gynllunio gan y Gwasanaeth Seicoleg Fforensig, i alluogi'r staff i adnabod yr arwyddion o straen yn gysylltiedig â gwaith ac i ddatblygu sgiliau ymdopi.

Mae cyfarfodydd tasglu wythnosol yn rhoi cefnogaeth llwyth achosion i swyddogion prawf. Mae'r cyfarfodydd yn hwyluso'r broses o osod gwaith i swyddogion gwasanaethau prawf (PSOs) a staff gweinyddol, i ymdrin â'r math dynamig ac adweithiol llwyth achosion NPS. Er hynny, canfuom nad yw cefnogaeth llwyth achosion wedi arwain at lwythi gwaith mwy rhesymol ar gyfer swyddogion prawf ac nid oedd defnydd digonol wedi'i wneud o amser y PSOs. Yn ychwanegol i'r cyfarfodydd tasglu, mae angen cael proses ffurfiol a mwy effeithiol ar gyfer dosbarthu tasgau penodol i PSOs.

Bydd y model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC) yn gofyn i rai swyddogion prawf symud i garchardai i weithio fel rheolwyr troseddwyr y ddalfa. Mae Cymru wedi mabwysiadu rhan rheoli achosion y model yn gynnar. Mae rheolwyr tîm wedi'u pennu i bob carchar er mwyn paratoi am y model. Er hynny, mae penderfyniad wedi'i wneud i ohirio lleoliad llawn o swyddogion prawf i'r carchardai, gan fod staff proffesiynol eisoes dan bwysau yn rheoli llwythi gwaith y swyddfa brawf. Mae hyn yn ddealladwy wrth ystyried y sefyllfa staffio, er gallai cyflwyno amserlen OMiC fod mewn perygl - yn enwedig os bydd adrannau eraill yn gwneud yr un peth.

O fewn yr adran, bydd cyfrifoldeb am droseddwyr yn aros gyda swyddogion cyfrifol cymunedol nes bod y model rheoli achosion OMiC llawn wedi'i brofi. Bydd profi'r model yn helpu cyflwyno rheoli achosion yn Lloegr a Chymru.

Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem recriwtio swyddogion prawf hirdymor, mae'r adran wedi recriwtio 70 o staff i gwblhau'r Cymhwyster Proffesiynol mewn Gwaith Prawf (PQiP). Rydym yn disgwyl i 20 o swyddogion gymhwyso yn Mawrth 2019, 20 arall i'w gymhwyso ym Medi 2019 a 30 arall i'w gymhwyso erbyn Mawrth 2020. Mae disgwyl y bydd lefelau staffio yn cyrraedd y lefel amcanol - yn caniatáu am gollu'n

¹⁰Data a welwyd ar y safle gydag NPS Cymru.

naturiol - unwaith y byddai'r holl swyddogion prawf o dan hyfforddiant wedi'u cymhwyso.

O dan y trefniadau hynny, bydd yn cymryd o leiaf 18 mis cyn i swyddogion prawf gael llwythi gwaith mwy rhesymol a bydd digon o profiad gan swyddogion prawf newydd gymhwyso i ymdrin â'r ystod o faterion ar draws amrediad achosion y NPS yn hyderus. Er bod prinder staff, mae staff yn perfformio yn dda, mae morâl staff yn uchel ac mae cyfraddau absenoldeb yn isel.

Mae gweithwyr preswyl sy'n gweithio mewn safleoedd cymeradwy yn gweithio sifftiau dydd, nos a'r penwythnos. Mae angen cael dau aelod o staff ar ddyletswydd yn ystod y nos. Mae'r contract rheoli cyfleusterau cenedlaethol yn darparu'r ail aelod o staff, sy'n ymgymryd â gwaith diogelwch a gwaith monitro. Mae dwy asiantaeth yn cynnig y gwasanaeth hwn yng Nghymru, un yng Ngogledd Cymru a'r llall yn Ne Cymru.

Dywedodd rheolwyr safleoedd cymeradwy wrthym eu bod yn cael gwybod ar fyr rhybudd nad oedd staff asiantaeth ar gael am y sifft, gan ofyn iddynt wneud trefniadau cyflenwi yn syth. Mewn un safle cymeradwy, roedd wyth sifft yn unig wedi'i chyflenwi dros gyfnod o ddau fis a hanner. Mae'r adran wedi cynnal nifer o gyfarfodydd gyda darparwyr contract er mwyn gwella trefniadau cyflenwi ond nid yw'r trefniadau wedi'u gwella i'r raddau sydd yn ofynnol. I osgoi risgiau diogelwch posibl i'r staff, mae'r adran wedi, ers Ebrill 2018, darparu aelod o staff i fod ar ddyletswydd pob nos, fel rhan o'r cynllun wrth gefn.

A yw'r sgiliau a'r proffil o staff yn cefnogi darparu gwasanaeth ansawdd uchel ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth?

Mae rheolwyr yn ymwybodol nad yw'r proffil staff mewn rhai rhannau o'r adran yn adlewyrchu'r rheini sy'n cael eu goruchwyllo. Mae angen i adrannau NPS fonitro amrywiaeth staff ac i gyflawni cyfraddau datgan staff o 60 y cant ar draws pedair nodwedd warchoddedig. Dyna beth mae Gweinyddiaeth Cyfiawnder yn ystyried i fod y lefel isaf posibl sydd ei angen am resymau dilysu. Nid yw'r targed wedi'i gyrraedd. Nid yw'r adran yn sicr o'r rheswm pam nad yw staff yn datgelu'r wybodaeth hon. Mae'r Uwch Dîm yn parhau i annog staff i gwblhau'r ffurflenni monitro amrywiaeth.

Mae gan pob gradd staff rolau pendant wedi'u gosod yn y model gweithredu. Mae rheolwyr tîm yn pennu unigolion i ymarferwr gan ddefnyddio'r meini prawf dyrannu achosion cenedlaethol. Mae'r broses hon yn cael ei monitro a'i chywiro fel y bo'r angen. Dywedodd y mwyafrif o swyddogion cyfrifol eu bod wedi derbyn achosion yr oedd ganddynt sgiliau a hyfforddiant amdanynt.

A yw arolygu gwaith yn cefnogi darparu ansawdd uchel a datblygiad proffesiynol?

Dywedodd y mwyafrif o swyddogion cyfrifol fod rheolwyr tîm yn hawdd eu gweld ac yn gefnogol. Dywedon nhw wrthym iddynt derbyn goruchwyliaeth a wnaeth wella safon eu gwaith a'u helpu i'w chynnal. Dywedodd cyfran fach o reolwyr tîm, uwch reolwyr a gweinyddwyr wrthym eu fod yn cael sgysiau aml, weithiau yn ddyddiol, gyda'u rheolwyr llinell, ond na chafodd pob un eu goruchwyllo yn ffurfiol. Mae'r system arfarnu yn effeithiol ac mae'n cael ei chysylltu ag amcanion perfformiad. Nodwyd materion yn ymwneud â gallu ac mae proses sefydlog mewn lle am fynd i'r afael â pherfformiad gwael.

A yw trefniadau ar gyfer dysgu a datblygu yn gynhwysfawr ac yn ymatebol?

Mae Cyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol HMPPS yn gyfrifol am ddysgu a datblygu. Mae'r tim hyfforddi cenedlaethol yn darparu hyfforddiant sgiliau proffesiynol ar draws y NPS ac mae hyfforddwyr cenedlaethol mewn pob adran. Cyflwynir cynllun hyfforddiant cenedlaethol i ddiwallu galw y NPS. Hysbysodd staff inni eu bod yn gorfod teithio'n bell iawn yn aml i fynychu hyfforddiant oherwydd nad oedd ar gael yn lleol.

Mae timau hyfforddi adrannol, a reolir yn ganolog, mewn pob adran ac maent yn gweithio mewn partneriaeth â'r Cyfarwyddwr Adrannol a'r penaethiaid LDU. Rydym o'r farn bod y prif flaenoriaethau yn briodol: y PQiP, hyfforddiant galwedigaethol PSO a datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r fforwm dysgu a datblygu, a gadeirir gan y rheolwr hyfforddi adrannol, yn cwrdd bob yn ail fis. Nodau ac amcanion y cyfarfodydd ywtrefnu gweithgareddau hyfforddiant, darparu cynllun hyfforddiant i ddiwallu anghenion yr adran a sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol.

Lansiwyd 'myLearning' gan y MoJ, system rheoli dysgu, yn Nhachwedd 2018. Bwriad y system yw gwella'r profiad dysgu. Mae'n cael ei weld fel cam pwysig ymlaen - gall hyfforddiant gael ei gynllunio, ei arolygu a'i gofnodi. Cawsom wybod y bydd dadansoddiad o anghenion hyfforddi Cymru yn cael ei gyflawni ar ôl i'r system 'myLearning' gael ei hymwreiddio.

Mae NPS Cymru wedi cyhoeddi canllawiau gweithredu pwrpasol. *Mae'r Practice Companion* yn darparu pob aelod o staff gyda chasgliad o adnoddau yn annog staff i fod yn fwy myfyrgar yn eu gwaith. Mae'n canolbwyntio ar ymgysylltu, asesiadau risg, cynllunio dedfrydau ac adolygu. Mae'r NPS hefyd wedi datblygu canllawiau risg o niwed difrifol (ROSH), gyda'r bwriad o ddylanwadu ar feddwl a gwneud penderfyniadau ynghylch asesu a rheoli'r risg o niwed i eraill. Mae grŵp dysgu ymarfer gorau a chynllun gweithredu gan bob LDU. Mae llawlyfr dysgu hefyd, sef casgliad o'r holl wersi a ddysgwyd a'r prosesau datblygu a ddefnyddiwyd ar draws NPS Cymru. Dywedodd yr holl staff a gyfwelwyd gennym fod datblygiad proffesiynol yn cael ei annog.

Dywedodd swyddogion cyfrifol wrthym fod pwysau gwaith yn golygu nad ydynt bob amser yn medru mynychu'r sesiynau hyfforddiant sydd ar gael iddynt. Mae rhai staff yn dod o hyd i hyfforddiant trwy bartneriaid lleol, sy'n ddefnyddiol iddynt. Mae'r swyddogion prawf sydd wrthi yn cael eu hyfforddi yn fodlon ar y lefel o hyfforddiant maent yn ei dderbyn. Yng Nghymru, mae PQiPs yn cwblhau hyfforddiant ychwanegol i weithio yn y llys a gyda'r rheini sydd wedi cyflawni troseddau rhywiol. Lansiwyd hyfforddiant cenedlaethol newydd ar gyfer swyddogion cyswllt dioddefwyr yn Nhachwedd 2018; mae'n cynnwys gweithlyfr a bydd hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth yn dilyn ar ddechrau 2019.


Nid oedd anghenion dysgu a datblygu y staff llys wedi'u diwallu yn ddigonol. Roedd yn anodd iddynt gael eu rhyddhau yn aml i fynychu hyfforddiant. Dywedon nhw wrthym nad oedd eu cyfnod ymsefydlu yn rhan o raglen benodol ac roedd rhaid iddynt ddysgu wrth iddynt weithio.

Mae cyfleoedd cysgodi ar gael i wella dealltwriaeth staff o'r rolau a swyddogaethau adrannau HMPPS gwahanol yng Nghymru. Cafodd y fenter hon ei pheilotu yn Ne Cymru, ac mae wedi cael ymateb da gan gyfranogwyr. Roedd cymorth cyfoedion a dysgu cydweithredol yn amlwg ar draws y sefydliad.

A yw rheolwyr yn rhoi digon o sylw i ymgysylltu â staff?

Gwelsom staff brwdfrydig yn y sefydliad a oedd yn mwynhau eu gwaith ac yn dangos ymrwymiad at ddarparu gwaith o ansawdd uchel. Mae staff yn teimlo eu bod yn medru mynegi eu barnau mewn nifer o fforymau staff a gallant gymryd rhan a rhoi adborth. Mae gan yr adran bwyllgor gwobrau a chydabyddiaeth. Gwelsom fod enwebiadau rheolaidd am ymarfer eithriadol. Roedd gan NPS Cymru enillydd yng Ngwobrau Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol 2018.

Dywedodd y mwyafrif o staff fod digon o ffocws ar les staff. Mae grwpiau lles a arweinir gan gyfoedion yn cael eu cynnal mewn pob LDU. Mae staff yn cael eu hannog hefyd i ddefnyddio'r rhaglen gynorthwyo gweithwyr sydd am ddim ac yn gyfrinachol ac sydd ar gael 24 awr y dydd. Roedd staff y llys yn y lleiafrif: dywedodd rhai ohonynt wrthym nad oes digon o ffocws ar les staff. Mae eu gwaith yn y llys yn golygu eu bod yn gweld deunyddiau annymunol weithiau, sy'n gallu bod yn eithaf gofidus. Nid oedd pob aelod o staff yn ymwybodol o'r rhaglen gynorthwyo gweithwyr, ac roedd rhai yn teimlo nad oedd digon o amser gyda nhw i elwa o'r rhaglen. Gwnaeth y sefydliad ymateb yn briodol i wneud addasiadau rhesymol, pan fo'n ofynnol. Mae'r lefelau absenoldeb isel yn yr adran yn ganmoladwy.

1.3. Gwasanaethau	Da
Mae ystod eang o wasanaethau ansawdd uchel mewn lle, yn cefnogi gwasanaeth pwrpasol ac ymatebol i bob defnyddiwr gwasanaeth.	

A oes dadansoddiad digon cynhwysfawr a diweddar o'r proffil defnyddwyr gwasanaeth, i sicrhau bod yr adran yn gallu darparu gwasanaethau?

Roedd y dadansoddiad o anghenion troseddwy'r yr adran yn gyfredol ac yn cynnwys proffil o ffactorau yn gysylltiedig â throseddu ac ymatal. Dengys y dadansoddiad ardaloedd sydd â mwy o gyswllt ag aildroseddu a lle mae angen targedu gwasanaethau. Mae data ar wariant blaenorol, gwybodaeth am argaeledd gwasanaethau eraill a'r adborth gan staff yn llywio'r broses gomisiynu.

Roedd data am nodweddion gwarchoddedig troseddwy'r yn anghyflawn. Ni chofnodwyd iaith ddewisol unigolion yn gyson am ddarparu gwasanaeth. Cofnodwyd data anabledd ar gyfer 90 y cant o'r rhain sy'n cael eu goruchwyllo ledled Cymru; er hynny, ni chofnododd un LDU unrhyw ddata ar gyfer 27 y cant o'r llwyth achos. Cofnodwyd data am hil mewn 94 y cant o achosion, ond eto ni chofnododd yr un LDU unrhyw ddata ar gyfer 16 o'r llwyth achos. Cofnodwyd data am grefydd mewn 84 y cant o achosion, ond ni chofnododd y LDU â'r perfformiad isaf y data hwn ar gyfer 37 y cant o'r llwyth achos. Cofnodwyd data am gyfeiriadedd rhywiol mewn 88 y cant o achosion, ond eto ni chofnododd un LDU y data hwn ar gyfer 26 y cant o'r llwyth achos.¹¹

A yw'r sefydliad yn darparu maint, ystod ac ansawdd o wasanaethau i ddiwallu anghenion y defnyddiwr gwasanaeth?

Mae galwadau sylweddol wedi'u rhoi ar ddarparu gwasanaeth oherwydd daearyddiaeth NPS Cymru a'r ardaloedd gwledig. Mae nifer ac ystod y gwasanaethau sydd ar gael yn amrywio ar draws yr adran, gyda llai o ddarpariaeth mewn rhai ardaloedd gwledig. Mae rhai gwasanaethau yn cael eu comisiynu gan y CRC drwy'r

¹¹Mae data wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

cerdyn cyfradd, ond nid ydynt bob amser ar gael i unigolion sy'n peri risg uchel o niwed i eraill.

Mae'r adran yn dangos ymrwymiad at ddarparu gwasanaethau yn gyfartal ar gyfer siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg ac mae pob gwasanaeth ar gael yn Gymraeg mewn pob ardal.

Mae Cymru a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau (PCCs) wedi comisiynu gwasanaeth camddefnyddio sylweddau ar y cyd ledled Cymru, yn cynnwys y cynllun Dyfodol sy'n gweithredu yn ardal heddlu De Cymru. Mae gweithiwr yn cael ei benodi i'r unigolyn ar y pwynt arestio, yn cadw cyswllt trwy'r amser yn y llys, ac yn arolygu gwasanaethau yn ystod y cyfnod goruchwyllo. Cawsom wybod bod gan y gwasanaeth hwn gyfradd ymgysylltu o 91 y cant;¹²roedd yn llai na 50 y cant dan y ddarpariaeth flaenorol. Mae hon yn enghraifft dda o wasanaeth sydd wedi'i ddarparu mewn ymateb i angen. Mae cyfarfodydd adolygu chwarterol yn cael eu cynnal gyda darparwyr contractau i ennill dealltwriaeth o gyffuriau newydd ac i benderfynu am y ffordd orau o gefnogi unigolion sydd yn eu defnyddio. Fel rhan o'r ymdrechion hyn, cyhoeddwyd canllaw ar gyfer staff ynghylch sylweddau seicoweithredol.

Mae dod o hyd i lety ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau yn her sy'n mynd yn ei blaen; nid oes unrhyw lety ar gael mewn rhai ardaloedd Cymru. Anaml iawn mae'r rheini sy'n cyflawni troseddau yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth ar gyfer tai ac o ganlyniad, gall fod yn anodd symud pobl ymlaen osafleoedd cymeradwy. Yn ddiweddar, mae NPS Cymru wedi recriwtio arweinydd adrannol i ymdrin â materion llety; maent yn gyfrifol am gyfryngu trefniadau rhwng darparwyr llety a LDUs er mwyn cael gwell mynediad at dai sy'n addas. Mae un man cyswllt ar gyfer tai mewn pob LDU. Maent yn cael cyfarfodydd chwarterol gyda'r arweinydd llety newydd.

Yn gyffredinol, mae gan droseddwyr ag anhwylderau personoliaeth anghenion cymhleth iawn sy'n creu heriau i'r system cyfiawnder troseddol ac i staff GIG, o ran eu rheoli a'u trin. Mae rhyw ddau draean o garcharorion yn diwallu'r meini prawf am o leiaf un math o anhwylder personoliaeth. Mae Llwybr Anhwylderau Personoliaeth Troseddwyr (OPDP), yn cael ei gomisiynu ar y cyd a'i reoli gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac HMPPS Cymru. Mae swyddogion cyfrifol yn nodi ac asesu ffactorau yn gysylltiedig â throseddau, ac yn rheoli troseddwyr gwryw a throseddwyr benyw. Mae'r llwybr yn ceisio lleihau lefelau troseddau, gwella iechyd seicolegol a lles yr unigolyn, a gwella sgiliau, hyder ac agweddau'r staff sy'n gweithio gyda throseddwyr ag anhwylder personoliaeth.

Mae'r Tîm Iechyd Meddwl Fforensig yn gweithio gyda swyddogion cyfrifol i gyflawni cynlluniau dedfrydau a chynlluniau rheoli risg sy'n dangos dealltwriaeth seicolegol ac yn darparu hyfforddiant ac ymgynghori. Mae dau draean o lwyth achos yr adran wedi'i sgrinio. Mae gwerthusiad wedi dangos bod staff â mwy o ddealltwriaeth am anghenion iechyd seicolegol a'u bod yn fwy hyderus nag o'r blaen o ran sut maent yn asesu ac ymgysylltu ag unigolion. Roedd staff yn frwdfrydig am y gwasanaeth, yn ei ddisgrifio fel datblygiad cadarnhaol. Maent yn teimlo'n fwy parod i weithio gyda'r rheini ag anghenion cymhleth, ac yn credu bod y gwasanaeth wedi llenwi bwch sylweddol.

Mae'r Gwasanaeth Seicolegol Fforensig (FPS) hefyd yn darparu swyddogion cyfrifol gydag ymgynghori trwy'r Llwybr Cymunedol Risg Uchel a'r prosiect Rheoli Troseddwyr Difrifol a Pheryglus Integredig Cymru (WISDOM). Mae'r prosiect yn ymestyn egwyddorion rheolaeth integredig ar droseddwyr i'r rheini sydd wedi'u

¹²Data a welwyd ar y safle gydag NPS Cymru.

hasesu fel risg uchel o achosi niwed i eraill. Mae'r model WISDOM yn gweithredu o unedau wedi'u cyd-leoli yn cynnwys cynrychiolwyr o'r heddlu, gwasanaeth prawf, carchar, iechyd meddwl, a'r Llwybr Anhwylderau Personoliaeth, ymhlith partneriaid eraill. Mae cydweithredu yn caniatáu am broses rheoli risg well ac sy'n fwy trylwyr.

Mae diffyg darpariaeth iechyd meddwl ledled Cymru. Mae'r NPS wedi ceisio ymgysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl, ond nid ydynt yn gallu darparu gwasanaeth yn aml iawn. Yn aml, mae swyddogion cyfrifol yn gweld bod y trothwy mor uchel nad yw'r rhai hynny sy'n cael eu goruchwyllo yn diwallu'r meini prawf am gefnogaeth iechyd meddwl. Mae cyflwr iechyd meddwl gan fwy na 51 y cant o'r llwyth achos. Mae'r mwyafrif o bobl yn cael eu atgyfeirio at eu meddyg teulu am gymorth.

Mae grant arloesi gan HMPPS wedi ariannu gwasanaethau anafiadau ymennydd y gweithiwr cyswllt mewn un carchar ac un safle cymeradwy. Mae bron 200 o staff yn HMPPS Cymru wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth anafiadau ymennydd ers i'r gweithiwr cyswllt ddechrau yn ei swydd. Ers Gorffennaf 2018, mae 56 o breswylwyr mewn safleoedd cymeradwy wedi'u sgrinio. Mae canlyniadau cadarnhaol wedi cynnwys cefnogi preswylwyr yn dod o hyd i dai a chysylltu carcharorion â meddyg ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Mae'r gweithiwr cyswllt yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg pan fo'n ofynnol. Mae HMPPS Cymru wedi ariannu estyniad i gadw y gwasanaeth tan Hydref 2018 cyn i'r adrodiad asesu fod ar gael er mwyn cefnogi opsiynau ariannu hirdymor.

Mae PSOs wedi'u hyfforddi i ddarparurhaglen genedlaethol o oruchwyliaeth mewn grŵp. Gall y rhaglen gael ei darparu yn unigol, ond gall hefyd gael ei haddasu i'w darparu mewn grŵp. Mae'r deg sesiwn yn canolbwyntio ar faterion ymarferol, a allai gynnwys: cyflwyniad a briff am gyfrifoldeb yr unigolyn tra bod dan oruchwyliaeth; hyfforddiant sgiliau bywyd; a gwaith i wella integreiddio gyda'r gymuned. Mae modd atgyfeirio unigolion at wasanaethau eraill a all ddarparu cefnogaeth barhaol. Gallai methu â mynychu sesiwn arwain at rybudd neu achos am doriad. Gall goruchwyliaeth grŵp ryddhau swyddogion prawf o rai dyletswyddau, tra bod yr achos yn aros yng ngofal y PO. Bydd yr adran yn cynnal gwerthusiad o effeithiolrwydd y rhaglen.

Mae menywod yn cynrychioli pump y cant o lwyth achos yr adran. Mae uwch arweinydd ar gyfer yr adran ac mae un man cyswllt ar gyfer menywod mewn pob LDU. Gofynnir i bob menyw a ydynt am gael aelod benywaidd o staff wedi'i phennu iddynt. Nid yw bob amser yn bosibl darparu gwasanaeth gyda staff menywod yn adrodd yn unig, ond mae mynediad i wasanaethau pwrpasol sy'n cael eu darparu mewn canolfannau menywod ar gael mewn rhai ardaloedd. Mae'r ddarpariaeth bwysig hon, mewn awyrgylch diogel un rhyw penodol, yn golygu bod menywod yn cael mynediad at ystod o wasanaethau arbenigol trwy ddull 'siop un galwad'. Mae ymyriadau yn ceisio mynd i'r afael ag anghenion menywod yn gyfannol, yn hytrach nag ymddygiad troseddu yn unig. Mae'r canolfannau yn darparu cyfle i rai menywod eu mynychu yn wirfoddol ar ôl i'w gorchmynion llys ddod i ben.

Mae gan Lywodraeth Cymru strategaeth a adwaenir fel Patrwm Troseddu Menywod sy'n ceisio sicrhau ymyrryd yn gynnar i gadw menywod allan o'r system cyfiawnder troseddol, ac yn benodol, o'r ddalfa. Mae'r strategaeth yn aros am awdurdod gweinidogion. Mae uwch swyddog prawf penodol ar gyfer menywod wedi'i phenodi yn ddiweddar. Nhw fydd yn gyfrifol am weithredu'r gwaith o ganlyniad i'r patrwm. Nid oes safleoedd cymeradwy ar gyfer menywod yng Nghymru, ond mae safleoedd cymeradwy penodol yn Lloegr. Mae swyddogion cyfrifol yn cysylltu'n agos â staff safleoedd cymeradwy ac unigolion sy'n cael eu goruchwyllo i gadw cyswllt, monitro

cyflawni amcanion cynllunio dedfrydau a chefnogi cynlluniau symud ymlaen. Pan fo'n bosibl, maent yn ymweld â'r safle cymeradwy neu'n cadw mewn cysylltiad ar y ffôn.

Mae opsiynau ar gyfer unedau preswyl menywod yng Nghymru yn cael eu harchwilio, fel rhan o'r cynllun gweithredu yn strategaeth troseddwyd menywod y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Pwrpas yr unedau preswyl yw helpu menywod sydd wedi'u hasesu fel risg isel o achosi niwed i eraill, gyda materion megis dod o hyd i waith ac adsefydlu camddefnyddio sylweddau. Mae NPS Cymru yn gweithio yn agos gyda phartneriaid ar y rhaglen hon. Mae'r rhaglen Braenaru Rheoli Troseddau Integredig ar gyfer menywod yn ymagwedd integredig penodol, amlasiantaethol at reoli menywod sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Mae'n cynnwys cynllun dargyfeirio cyn mynd i'r llys a dull sy'n dangos dealltwriaeth seicolegol at weithio gyda menywod.

Mae mwy na chwarter o'r rhai hynny sy'n cael eu goruchwyllo gan yr adran wedi cyflawni troseddau rhyw ac mae gan bump y cant o'r llwyth achos amod polygraff wedi'i gofnodi ar eu trwydded. Mae'r Uned Droseddwyd Rhyw Adranol (DSOU) yn gyfrifol am ddarparu rhaglenni ynghylch troseddau rhyw ar draws yr adran. Horizon yw'r rhaglen achrededig sylfaenol sy'n cael ei darparu, sef rhaglen grŵp achrededig cenedlaethol wedi'i chynllunio ar gyfer troseddwyd rhyw gwrywaidd gyda risg ganolig. Mae'r rhaglen yn cael ei darparu ar draws nifer o safleoedd.

Mae lefelau absenoldeb staff yn y tim a'r diffyg hyfforddiant cenedlaethol sydd ar gael i ddarparu Horizon wedi arwain at restrau aros hir. Mae rhai unigolion wedi aros am fwy na 12 mis, sy'n hollol annerbyniol. Mae tri uwch swyddog prawf wedi'i hyfforddi i ddarparu hyfforddiant i hwyluswyr rhaglenni, yn ei gwneud yn bosibl i ddarparu ynghynt. Rhagwelir, erbyn Ebrill 2019, na fydd ôl-groniad o ddefnyddwyr gwasanaethau'n dal i aros i gychwyn y rhaglen.

Mae Cynlluniau am Newid yn cael ei ddarparu ar sail un wrth un. Mae'n becyn cymorth ar gyfer gweithio gyda dynion sydd wedi cyflawni troseddau rhyw ac sydd wedi'u hasesu fel peri risg isel o aildroseddu, lle na fyddai rhaglen achrededig yn addas ar eu cyfer. Nid oes rhaglen grŵp ar gyfer menywod sydd wedi cyflawni troseddau rhyw, felly darperir y rhaglen hon i fenywod ar sail un wrth un. Wrth ystyried gwledigrwydd rhai rhannau o Gymru, gwnaeth y defnydd o Cynlluniau am Newid gynnig ffordd hyblyg o ddarparu gwaith i fynd i'r afael â throseddau rhyw. Er hynny, fel a nodwyd yn ein harolygiad thematig,¹³ nid oedd rhai swyddogion prawf yn teimlo'n ddigon cymwys i'w darparu.

Mae Cylchoedd Cefnogaeth, wedi'i ariannu gan HMPPS Cymru, yn helpu mynd i'r afael ag unigrwydd a hyglwyfder defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi cyflawni trosedd rhyw. Wedi'i drefnu gan elusen Circles UK, mae'n darparu goruchwyliaeth proffesiynol i wirfoddolwyr wrth gefnogi troseddwyd rhyw i fod yn rhan o gymdeithas ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar. Mae cydlynedd gwirfoddol llawn amser mewn lle i arolygu'r gwasanaeth. Ar hyn o bryd, mae naw prosiect Cylchoedd Cefnogaeth yn rhedeg ar draws Cymru, ac mae pump arall yn cael eu cynllunio. Mae'r cynllun hwn yn cael ei ddatgomiynu gan y NPS oherwydd costau; serch hynny, roeddem yn falch i nodi bod Cymru wedi dewis parhau gyda'r ddarpariaeth hon.

¹³Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. (2019). *Rheoli a Goruchwyllo dynion sydd wedi'u cyhuddo o droseddau rhyw*.

A yw perthnasoedd gyda darparwyr ac asiantaethau eraill yn sefydlog, wedi'u cynnal a'u defnyddio yn effeithiol i ddarparu gwasanaethau ansawdd uchel i ddefnyddwyr gwasanaethau?

Mae'r adran yn gweithio gydag un CRC. Mae'r cyfarwyddiadur gwasanaethau cerdyn cyfradd ar gael i staff trwy'r system EQuIP, a gall y system fonitro ei ddefnydd. Fe ganfu adroddiad thematig gan Arolygiaeth Prawf EM, *Cadwyni Cyflenwi'r Gwasanaeth Prawf*,¹⁴ nad oedd staff mewn nifer o adrannau NPS yn gwneud defnydd llawn o'r gwasanaethau a gomisiynir trwy'r cerdyn cyfradd. Dyna oedd y sefyllfa yng Nghymru. Rhoddwyd esboniadau gwahanol am hyn, yn cynnwys darpariaeth anghyson a diffyg sylw mewn rhai ardaloedd, yn golygu nad oedd hyder gan rai staff yn y gwasanaethau a ddarperir gan y CRC.

Dywedodd rai staff wrthym fod rhywfaint o ddarpariaeth yn anhyblyg ac ni allai gael ei haddasu i ddiwallu anghenion unigol; roedd eraill yn pryderu ynghylch ansawdd a chost gwasanaethau. Mae'n bosib y gallai'r diffyg data am effeithiolrwydd canlyniadau wedi cyfrannu at y defnydd isel o'r ddarpariaeth.

Mae'r NPS yn cynnal cyfarfodydd integreiddio gwasanaethau yn aml gyda'r CRC i adolygu cyflwyniadau am gardiau cyfradd, y nifer o wasanaethau i'w prynu a materion ynghylch darparu gwasanaeth. Edrychon ni ar gofnodion cyfarfodydd rheolaidd gyda'r CRC i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n diwallu anghenion y NPS. Mae staff NPS hefyd yn cael eu hannog i wneud defnydd gwell o'r gwasanaethau a gomisiynir trwy'r cerdyn cyfradd, yn hytrach na dibynnu ar wasanaethau gan ddarparwyr a oedd yn gweithredu cyn *Gweddnewid Adsefydlu*, yn enwedig lle mae sicrwydd cyfyngedig o ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r adran wedi datblygu a chynnal perthnasoedd gweithio effeithiol gyda darparwyr prif ffrwd pwysig eraill. Mae partneriaethau yng Nghymru yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Grŵp Strategol Cyfiawnder yng Nghymru, Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan, a Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru.

Mae darparu gweithredol o wasanaethau i fynd i'r afael ag agenda Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACE) wedi bod yn ganolog i strategaeth Llywodraeth Cymru ynghylch plant a'r system cyfiawnder troseddol. Mae cais llwyddiannus rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, pedwar PCC a phedwar heddlu ar draws Cymru, yn ogystal â phartneriaid allweddol, yn cynnwys HMPPS Cymru, wedi sicrhau cyllid prosiect ar gyfer y gwaith hwn gan y Swyddfa Gartref tan fis Mawrth 2020.

Un o brif amcanion y prosiect yw cael gweithlu cymwys a hyderus sy'n gallu ymateb i hyglwyfder yn fwy effeithiol trwy ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACE. Bydd hyfforddiant ynghylch sut gallai ffactorau hanesyddol wedi cyfrannu at droseddau yn cael ei ddarparu i staff NPS a bydd aelod o staff yn cael ei hyfforddi fel cydlynnydd ACE ym mhob LDU. Bydd hyn yn cefnogi datblygiad o ddull amlasiantaethol ar gyfer ymyrryd yn gynnar. Roeddem o'r farn bod hon yn enghraifft dda o sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd i nodi a chomisynu hyfforddiant yn seiliedig ar dystiolaeth i staff cyfiawnder troseddol.

Mae gan NPS Cymru naw aelod o staff sydd wedi'u hyfforddi mewn asesiadau ac ymyriadau arbenigol yn gysylltiedig â gwrthderfysgaeth. Mae'r tîm yn darparu cyngor am hyfforddiant gwrthderfysgaeth ar gyfer holl staff NPS a'r CRC yng Nghymru i wella ymarfer a chydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Prevent wedi'i chynnwys yn *Neddf*

¹⁴Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. (2018). *Cadwyni Cyflenwi'r Gwasanaeth Prawf*.

Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015. Mae un man cyswllt ar gyfer pob LDU. Mae'r tîm yn mynychu cyfarfodydd gyda'r heddlu ledled Cymru.

Mae pedwar bwrdd rheoli strategol MAPPA ac ymgysylltu yn MAPPA a chyda swyddogion MOSOVO fel sy'n briodol. Mae cynrychiolwyr hefyd yn mynychu Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol (MARACs). Er hynny, canfuom nad oedd rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau plant ac unedau cam-drin domestig mor effeithiol ag y dylai fod. Ni dderbyniwyd ymateb o fewn amserlen resymol ar gyfer rhai ceisiadau gwybodaeth ac ni dderbyniwyd ymateb ar gyfer rhai ceisiadau. Rydym yn disgwyl i'r NPS weithio gyda lluoedd heddlu ac awdurdodau lleol i hwyluso ymatebion clir, manwl a buan i ymholiadau. Mae rhai uwch arweinwyr yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud yn y maes hwn.


Gwasanaethau i'r llys

Gwnaethom gynnal arolwg a derbyn ymatebion gan grŵp bach o ddedfrydwyr ar draws Cymru. Roedd y mwyafrif yn falch o'r gwasanaeth a ddarperir gan y NPS i'r llys. Gwnaeth pob un ddweud bod cyngor cyn-dedfrydu wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt i gynorthwyo â dedfrydu. Roedd y cryfderau hyn wedi'u hamlygu: cyfathrebu da, cynigion realistig a staff hyfforddedig ac ymrwymedig a wnaeth yr ymdrech i ddeall beth mae'r ynadon yn edrych amdani. Awgrymwyd y canlynol fel gwelliannau: cynyddu'r nifer o staff ar gael yn y llys a chael mwy o eglurder am yr ymyriadau a gynigir.

Er gwaethaf hyn, fe wnaethon nhw nodi fod staff y llys o gymorth, ac roedd un wedi gwneud y sylw "*roedd yn bleser gweithio gyda nhw*".

Gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr

Mae'r adran yn darparu gwasanaeth rhagorol ar gyfer dioddefwyr. Anfonir arolwg adborth dienw i ddiodeffwyr gan y gwasanaeth prawf ar ôl yr ymweliad cyntaf gan y swyddog cyswllt diodeffwyr. Mae gwybodaeth yn cael ei thynnu a'i dadansoddi gan yr uned ddiodeffwyr HMPPS ganolog a darperir adroddiad am lefel fodlonrwydd y gwasanaeth i'r adran. Roedd y gyfradd ymateb yn isel, ond o'r rhai hynny a ddychwelodd yr arolwg, roedd 100 y cant yn fodlon ar y gwasanaeth. Mae'r adran yn ystyried ffyrdd i wella'r gyfradd ymateb.

1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau	Angen gwelliant
Mae gwybodaeth amserol a pherthnasol ar gael ac mae cyfleusterau addas mewn lle i gefnogi dull ansawdd uchel, personol ac ymatebol ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth.	

A yw'r polisiau a chanllawiau angenrheidiol mewn lle i alluogi'r staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd, yn diwallu anghenion pob defnyddiwr?

Mae polisiau i gefnogi darparu gwasanaethau ansawdd uchel ar gael trwy system EQUIP, yn cynnwys y cyfleuster i rybuddio staff am brosesau newydd. Fel rheol, mae polisiau ar ffurf PI ac maent yn cael eu hadolygu yn genedlaethol. Mae'r Adran Ymarfer Effeithiol y NPS wedi cyflwyno 'paratodau 7 munud' yn ddiweddar, yn darparu ymarferwyr gyda gwybodaeth a chanllawiau defnyddiol.

Mae gan NPS Cymru strategaeth gyfathrebu effeithiol: dosberthir gwybodaeth trwy'r rhyngrwyd, cyfarfodydd tîm, cynadleddau ffôn, cynadleddau rheolwyr canol a chylchlythyrau. Mae'r Cyfarwyddwr Adrannol Gwasanaeth Prawf a'r Cyfarwyddwr

Gweithredol yn ymweld ag LDUs hefyd. Ers uwchraddio'r systemau ICT yng Ngorffennaf 2018, mae tim cyfathrebu'r adran wedi casglu data ar ddefnydd y fewnwyd i weld pa bynciau oedd yn boblogaidd.

Gwnaeth adran cyfathrebu y HMPPS arolwg gyda staff HMPPS Cymru yn Awst 2018 i weld pa ffynhonnell a dull cyfathrebu oedd yn well ganddynt. Roedd yr ymatebion wedi'u dadansoddi a'u defnyddio i hysbysu dulliau cyfathrebu effeithiol y dyfodol. Dywedodd staff wrthym fod ganddynt fynediad at yr holl wybodaeth oedd arnynt ei hangen ond weithiau roeddent wedi cael eu llethu gan waith ac felly nid oedd ganddynt ddigon o amser weithiau i'w darllen.

A yw'r safleoedd a'r swyddfeydd yn galluogi'r staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd, gan ddiwallu anghenion pob defnyddiwr?

Mae'r adran yn gweithredu o 20 swyddfa, 19 llys, 4 safle cymeradwy, a safleoedd ychwanegol lle mae staff gwasanaeth prawf wediui leoli ar y cyd gydag asiantaethau eraill. Mae'r broses reolaidd o archwilio safleoedd wedi gwneud yr adran yn ymwybodol nad yw pob swyddfa yn hawdd ei chyrraedd ar gyfer pobl ag anabledau, yn cynnwys staff a defnyddwyr gwasanaethau. Pan fo'n ofynnol, mae addasiadau rhesymol yn cael eu rhoi mewn lle i hwyluso mynediad i wasanaethau perthnasol. Dywedodd staff wrthym fod y swyddfeydd maent yn gweithio ynnddynt yn darparu awyrgylch diogel a chyfrinachol ar gyfer cwblhau gwaith ymddygiad troseddol sensitif gydag unigolion. Arolygir polisi gan y rheolwr tim i sicrhau bod ymweliadau cartref yn cael eu cynnal yn ddiogel.

Mae contractau cenedlaethol NPS newydd ar gyfer rheoli cyfleusterau wedi bod mewn lle ers Ionawr 2018. Mae un darparwr ar gyfer Gogledd Cymru ac mae un arall ar gyfer De Cymru. Gall gwaith gwirio gymryd llawer o amser i'w gwlbhau, ac nid yw'r gwaith yn cael ei gyflawni i safon ofynnol bob amser. Mae'r contractwr a'r NPS o farnau gwahanol am beth ddylai gael ei ystyried fel gwaith sy'n hollbwysig i'r busnes.

Yn dilyn menter beilot y MOJ am safleoedd cymeradwy, gwnaeth cynrychiolydd Cyfarwyddiaeth Ystadau MOJ roi gwybod inni fod polisi uwchgyfeirio gwell mewn lle erbyn hyn ac y dylai'r holl waith sy'n hollbwysig i'r busnes fod wedi'i weithredu. Serch hynny, yn ystod yr arolygiad, cawsom wybod bod gan safleoedd cymeradwy fwy na 120 o orchmynion gwaith heb eu gweithredu. Mae swyddfeydd lleol yn dal yr wybodaeth berthnasol i reoli materion am dai, ond ni wybu'r adran beth oedd y cyfanswm o orchmynion gwaith heb eu gweithredu ar draws pob LDU. Rhwng Medi a Thachwedd 2018, roedd 21 o orchmynion gwaith a fu'n hollbwysig i'r busnes heb eu gweithredu yng Nghymru a chafodd y gorchmynion hyn eu huwchgyfeirio i'r uwch reolwr cyfrifon amgymorth. Digwyddodd y gwaith gwirio yn brydlon ar ôl defnyddio'r broses hon.

A yw'r systemau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (ICT) yn galluogi'r staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd, sy'n diwallu anghenion pob defnyddiwr gwasanaeth?

Roedd systemau TGCh pob aelod o staff wedi'u huwchraddio yng Ngorffennaf 2018. Mae darparu gliniaduron wedirhoillawer o hyblygrwydd iddynt ar gyfer cwblhau gwaith ysgrifenedig yn enwedig mewn ardaloedd anghysbelli yng Nghymru. Mae TGCh yn cefnogi cynhyrchu gwybodaeth reoli ofynnol i fonitro perfformiad.

ViSOR yw'r gronfa ddata gyfrinachol sy'n cefnogi MAPPA. Mae'n caniatáu i'r tri awdurdod cyfrifol MAPPA (yr heddlu, gwasanaeth prawf a charchardai) rannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth am droseddwyr treisgar a throeddwyr rhyw. Rydym yn disgwyl i'r NPS gael trefniadau i sicrhau bod gwybodaeth reoli risg

allweddol yn cael ei lanlwytho i'r gronfa ddata yn rheolaidd. Yn genedlaethol, mae'r broses o alluogi staff gwasanaeth prawf i gael mynediad at ViSOR wedi bod yn broses anodd oherwydd oedi mewn gwaith archwilio ac, yn benodol, mynediad cyfyngedig at hyfforddiant ViSOR. Mae NPS Cymru yn mynd i'r afael â'r materion hyn ac mae cynllun clir mewn lle i gael pob aelod o staff perthnasol wedi'i archwilio erbyn Ebrill 2019. Bydd hyfforddiant ViSOR yn cychwyn ar ddechrau 2019.

Yn y cyfamser, dylai'r adran gael trefniadau mewn lle i sicrhau bod gwybodaeth risg NPS, asesiadau ARMS a chynlluniau rheoli risg y System Asesu Troseddwyr (OASys) yn cael eu llwytho i ViSOR. Cawsom wybodbod y broses yn golygu'r swyddog cyfrifol yn cyfathrebu â'r gweinyddwr ViSOR drwy e-bost. Gwelsom dystiolaeth i awgrymu nad yw hyn yn digwydd yn rheolaidd.

Gwnaethom adolygu 10 achos NPS a ddylai fod wedi cael cofnod ViSOR. Crëwyd cofnod ViSOR mewn pob achos ac roedd y NPS wedi'i nodi fel y brif asiantaeth. Er hynny, roedd dystiolaeth bod gwybodaeth reoli risg NPS wedi'i lanlwytho i ViSOR mewn un achos yn unig. Nid oedd y cynllun rheoli risg OASys diweddaraf wedi'i lanlwytho mewn unrhyw achos. O'r naw achos lle dylai asesiad ARMS fod wedi'i lanlwytho, roedd hynny wedi digwydd mewn tri achos yn unig. Mae'r diffyg cynlluniau rheoli risg diweddar yn peri pryder arbennig Pan wnaethom gyfweld â staff mewn grwpiau ac yn unigol, canfuom fod eu dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau a'r broses ViSOR yn anghyson.

A yw dadansoddi, dystiolaeth a dysg yn cael eu defnyddio yn effeithiol i ysgogi gwelliant?

Mae mesurau perfformiad yn cael eu cynhyrchu yn genedlaethol. Mae ansawdd ymarfer yn cael ei fonitro trwy Offer Gwella Ymarfer (PIT) a Sicrwydd Ansawdd Asesu, yn ogystal â thrwy oruchwyliaeth reoli.

Mae gan NPS Cymru brosesau mewn lle ar gyfer monitro, dadansoddi a gwella perfformiad. Mae'r model dysgu arfer orau yn darparu fframwaith ar gyfer hyrwyddo dulliau lleol. Mae'r model yn seiliedig ar grwpiau dysgu arferion gorau LDU lleol sy'n cwrdd bob tri mis. Mae arferion da yn cael eu rhannu, mae meysydd i'w gwella yn cael eu nodi a'u trin. Mae grŵp dysgu arferion orau Cymru gyfan yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Adrannol ac mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn. Mae cyfranogwyr yn rhannu gwybodaeth am fentrau sydd wedi'u trafod mewn grwpiau dysgu LDU, adolygu cynlluniau gweithredu LDU, a darparu adborth manwl.

Mae'r tim datblygu ansawdd yn ysgogi'r agenda ansawdd. Yng Nghymru, mae'r tim yn dod dan Tim Sicrwydd Gweithredol a Pherfformiad HMPPS Cymru. Mae'n darparu elfennau craidd rhaglen waith y NPS ynghylch ansawdd ac effeithiolrwydd. Mae gweithgareddau yn cynnwys gwaith sicrhau ansawdd, hyrwyddo cyfarwyddyd ymarfer newydd ac ymwreiddio adnoddau gwella perfformiad. Mae'r tim yn gweithio'n agos gyda phenaethiaid LDU i lunio cynlluniau gweithredu perfformiad.

Mae gan NPS Cymru lawlyfr dysgu pwrpasol, sy'n cynnwys gwybodaeth i hyrwyddo digwyddiadau Dysgu Cymru, proses sicrhau ansawdd lleol sy'n golygu archwilionifer penodol o achosion bob mis. Mae gwendidau o ran perfformio yn cael eu nodi a'u trin.

Pan fydd tim llawn o QDOs yn cael eu recriwtio, byddant yn gweithio gyda staff ar sail un wrth un. Y flaenoriaeth ar hyn o bryd yw gwella ansawdd cynlluniau rheoli risg OASys a'r asesiadau, ac i sicrhau bod cofnodi yn adlewyrchu yn gywir y gwaith sydd wedi digwydd.

Dyweddodd staff wrthym eu bod yn ymwybodol o berfformiad y NPS yng Nghymru. Mae gwybodaeth reoli yn golygu bod unigolion yn cael gweld eu gwybodaeth perfformiad eu hunain. Mae gan y NPS gylchlythyr perfformiad a chylchlythyr o'r enw *Mae Ansawdd yn Bwysig*, crynodeb ymarfer effeithiol byr ar gyfer ymarferwyr. Darllenon ni argraffiad Hydref 2018 ar anhwylder personoliaeth a'r pwysigrwydd o gael dull sy'n dangos dealltwriaeth seicolegol. Anfonir bwletin perfformiad wythnosol i bob aelod o staff.

Mae gan yr adran dim o reolwyr ansawdd a rheolwyr craffu (QSM) sy'n cwblhau adolygiadau SFOac yn rhoi adborth. Mae'r QSMs yn cael eu cysylltu â phob LDU ac maent yn darparu arbenigedd am adolygiadau beirniadol a gwersi a ddysgwyd yn ddiweddar. Gwnaeth pob LDU dderbyn briff mewn ymateb i'r adolygiad SFO annibynnol Arolygiaeth Prawf EM sydd wedi'i gyhoeddi yn ddiweddar.¹⁵ Gwnaeth swyddogion cyfrifol roi enghreifftiau inni am sut oedd eu harfer wedi newid. Nid yw staff safleoedd cymeradwy yn cael eu cynnwys yn aml yn y broses o ddysgu gwersi gan SFOs. Rydym o'r farn y dylai hyn cael ei hailystyried wrth ystyried eu rôl yn rheoli unigolion sy'n peri risg uchel o niwed.

¹⁵Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. (2018). *Adolygiad annibynnol o achos Leroy Campbell*.

2. Goruchwylio achosion




Mae swyddogion cyfrifol yn defnyddio gwybodaeth gan amrywiaeth o ffynonellau i gyflawni asesiadau ansawdd da. Roedd perthnasoedd cynhyrchiol wedi'u creu a'u cynnal gyda'r rheini dan oruchwyliaeth. Roedd unigolion wedi'u cynnwys yn y broses o gynllunio a gweithredu eu dedfryd. Ystyriwyd yn yr asesiadau pa agweddau ar fywyd y person a allai fod wedi cyfrannu at yr unigolyn yn troseddu, yn cynnwys troseddau ac ymddygiad o'r gorffennol. Gwnaeth y cynlluniau fynd i'r afael â ffactorau yn gysylltiedig â throseddu gan ganolbwyntio ar gadw eraill yn ddiogel. Roedd gwasanaethau a ddarparwyd gyda sefydliadau eraill wedi'u cydgysylltu yn dda. Gwelwyd unigolion dan oruchwyliaeth yn aml ond weithiau ni ddangosodd y cynlluniau yn ddigonol sut byddai'r gweithredu anghenion yn gysylltiedig â throseddu oedd wedi'u nodi yn y cynllun yn cael eu hymdrin. Roedd cynnydd wedi'i gadw dan arolwg.

Cryfderau:

- Gwnaeth staff greu a chynnal perthnasoedd cynhyrchiol gydag unigolion dan oruchwyliaeth.
- Roedd ffactorau yn gysylltiedig â throseddu wedi'u nodi a'u dadansoddi yn gywir.
- Gwelwyd y rheini dan oruchwyliaeth yn ddigon aml i gefnogi ymataliad.
- Roedd cydweithio gydag asiantaethau eraill i gadw pobl yn ddiogel yn dda.
- Roedd y cyswllt cyntaf gyda'r rheini dan oruchwyliaeth yn brydlon.
- Roedd asesiadau a chynlluniau wedi'u cadw dan arolwg.

Meysydd i'w gwella:

- Nid oedd gweithredu bob amser yn ffocysu yn ddigonol ar fynd i'r afael â ffactorau ymatal.
- Nid oedd cais am wybodaeth gan asiantaethau diogelu mewn pob achos perthnasol.
- Ni chwblhawyd asesiadau ARM o fewn yr amserlenni gofynnol.
- Roedd oedi wrth ddechrau rhaglenni achrededig.

2.1. Asesu	Da
Rydyn ni'n asesu mewn modd gwybodus, dadansoddol a phersonol, gyda'r defnyddiwr gwasanaeth yn rhan fawr o'r broses.	

A yw'r asesu yn ffocysu yn ddigonol ar ymgysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth?

Mewn dros dri chwarter o'r achosion a arolygwyd, roedd unigolion wedi'u cynnwys yn ddigonol wrth gwblhau asesiadau. Roedd y mwyafrif wedi'u cwblhau o fewn yr amserlen ofynnol yn dilyn cychwyn y ddedfryd neu ryddhad ar drwydded. Gofynnodd ymarferwyr i'r unigolion am eu barnau er mwyn llywio'r broses asesu mewn dau draean o achosion. Aseswyd anghenion amrywiaeth ac amgylchiadau personol yn ddigonol mewn tri chwarter o achosion, ac mewn sawl achos, ystyriodd ymarferwyr sut byddai rhwystrau i ymgysylltu yn cael effaith ar allu unigolyn i elwa o ymyriadau. Er hynny, gwelsom ychydig o enghreifftiau lle roedd rhwystr posibl wedi'i nodi ond nid oedd digon o ddadansoddi o allu yr unigolyn i gydymffurfio ac i ymgysylltu â'r ddedfryd. Yn y mwyafrif o achosion, aseswyd parodrwydd yr unigolyn i newid.

A yw asesu yn canolbwyntio yn ddigonol ar ffactorau yn gysylltiedig â throeddau ac ymatal?

Dadansoddwyd a chanolbwyntiwyd ar ffactorau yn gysylltiedig â throeddau ac ymatal mewn mwy na thri chwarter o asesiadau. Gwnaeth ymarferwyr ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau i hysbysu eu hasesiadau. Ymysg y rhain oedd yr heddlu a dogfennau Gwasanaeth Erllyn y Goron, adroddiadau cyn-dedfrydu ac adroddiadau seicolegol. Roedd yr wybodaeth o gymorth i ymarferwyr gan nodi meysydd oedd angen sylw penodol i gefnogi newid.

Roedd y dadansoddiad o droseddau yn ddigonol mewn nifer tebyg o achosion. Gwnaeth staff asesu sut oedd ymddygiad blaenorol wedi'i gysylltu ag ymddygiad presennol. Dangoswyd hwn yn dda mewn un achos lle roedd y swyddog cyfrifol wedi cadw cyswllt â'r unigolyn yn ystod y ddedfryd a chyn iddo gael ei ryddhau o garchar. Roedd perthynas dda wedi'i sefydlu a ddatgelodd hanes o brofiadau niweidiol mewn plentyndod ar ffurf cam-drin a ddiodefwyd fel plentyn. Cafodd y swyddog cyfrifol ddealltwriaeth well o'r ffactorau a oedd yn ddylanwad ar y trosedd a defnyddiwyd yr wybodaeth hon i lywio goruchwyllo'r person.


Cydnabyddodd ymarferwyr gryfderau a ffactorau amddiffyn mewn bywydau defnyddwyr gwasanaethau, megis cymhelliad i newid, llety, gwaith a pherthnasoedd cefnogol.

A yw asesu yn canolbwyntio yn ddigonol ar risg o niwed i eraill?

Gwnaethom arolygu 55 achos a aseswyd fel risg uchel iawn neu risg uchel o niwed i eraill a 41 achos a aseswyd fel risg ganolig o niwed. Cytunodd arolygwyr gyda'r dosbarthiad risg o niwed mewn pob achos ond pump. Aseswyd yr achosion hyn fel risg uchel o niwed; roeddem o'r farn y dylent fod wedi'u dosbarthu fel risg ganolig o niwed. Roedd pryderon am gam-drin domestig neu ddiogelu plant yn bresennol mewn 51 achos yn ein sampl.

Roedd asesiadau wedi canolbwyntio yn ddigonol ar risg o niwed i eraill mewn mwy na thri chwarter o achosion. Disgrifiodd ymarferwyr bryderon penodol ynghylch risg

o niwed i ddiodefwyr presennol a diodefwyr posibl yn fanwl iawn. Roedd y mwyafrif o asesiadau wedi cynnwys manylion am ymddygiad cynt ac euogfarnau blaenorol. Roedd gwybodaeth gan asiantaethauartneriaid, megis yr heddlu, swyddogion cyswllt diodefwyr a gwasanaethau plant wedi'i defnyddio ac roedd yr asiantaethau hynny wedi'u cynnwys yn briodol. Er hynny, roedd eithriadau - dylai mwy fod wedi cael ei wneud i gysylltu ag unedau cam-drin domestig a gwasanaethau plant mewn achosion perthnasol. Roedd nifer o asesiadau ARM heb eu cwblhau o fewn y terfyn amser o chwechwythnos.

2.2 Cynllunio	Da
Mae cynllunio wedi'i lywio'n dda, yn gyfannol a phersonol, gyda'r defnyddiwr gwasanaeth yn rhan fawr o'r broses.	

A yw cynllunio yn canolbwyntio yn ddigonol ar ymgysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth?

Gwnaeth arolwg ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau Tachwedd 2017 bwysleisio yr hoffai'r rheini dan oruchwyliaeth gael eu cynnwys yn fwy yn y broses o gynllunio eu dedfryd. Gwelsom fod dau draean o bobl wedi ymgysylltu â'r broses o gynllunio eu goruchwyliaeth mewn ffordd ystyrllon. Pan oedd y gwaith wedi'i wneud yn dda, gwnaeth ymarferwyr ddefnyddio a thrafod gwybodaeth o'r holiadur hunan asesu. Gwnaethom nodi achos lle gwnaeth ymarferwr gynnwys unigolyn hyglwyf a oedd yn dioddef o ADHD a Syndrom Asperger yn y broses o gytuno ar ddarparu ymyriadau oherwydd risg ac angen. Trefnwyd sesiynau byrrach i fwyafu canolbwyntio.

Nid oedd cynllunio wedi ystyried amrywiaeth neu amgylchiadau personol yr unigolyn yn ddigonol mewn chwarter o achosion, yn cynnwys, er enghraifft, iechyd meddwl neu anghenion dysgu neu'r angen am gael cyfieithydd. Roeddem yn falch i weld bod cynllunio wedi ystyried parodrwydd a chymhelliad yr unigolyn i newid yn ddigonol yn y mwyafrif o achosion. Ni wnaeth fwy na thraean o'r cynlluniau gosod sut fyddai gofynion y ddedfryd yn cael eu darparu, a pha amserlenni y byddai eu hangen.


A yw cynllunio yn canolbwyntio yn ddigonol ar leihau aildroseddu a chefnogi ymataliad y defnyddiwr gwasanaeth?

Roedd y mwyafrif o agweddau cynllunio i gefnogi ymatal yn gyson yn dda. Roedd cynllunio yn canolbwyntio yn ddigonol ar leihau aildroseddu a chefnogi ymatal mewn bron tri chwarter o achosion. Gwnaeth y cynlluniau flaenoriaethu ffactorau allweddol a gyfrannodd at y troseddau, megis: camddefnyddio sylweddau; lles emosiynol; perthnasoedd; a meddwl ac ymddygiad. Gwnaeth cynlluniau hefyd nodi pa wasanaethau oedd mwya tebygol o leihau aildroseddu, megis rhaglen ymddygiad troseddol. Er hynny, roedd diffygion. Ni ddatganodd rai cynlluniau sut y byddai materion diodefwyr yn cael eu trin. Mewn rhai achosion, nid oedd cynllun clir o ymyriadau ar gyfer gofynion gweithgareddau adsefydlu (RAR).

A yw cynllunio yn mynd i'r afael â ffactorau yn gysylltiedig â'r risg o niwed i eraill mewn ffordd briodol?

O'r achosion a arolygwyd gennym, roedd 51 yn gymwys ar gyfer MAPPA, ac roedd 2 o'r rhain wedi'u derbyn yn lleol yn ôl categori 3. O'r achosion MAPPA yn ein sampl, roedd 82 y cant wedi'u rheoli ar Lefel 1 a 18 y cant ar Lefel 2.

Roedd cynllunio wedi'i ffocysu ar gadw eraill yn ddiogel mewn tri chwarter o achosion. Gwelsom ddigon o dystiolaeth fod cynlluniau yn cynnwys y cydbwysedd iawn o ymyriadau cyfyngol ac ymyriadau adeiladol, megis monitro gan yr heddlu a rhaglenni ymddygiad troseddwr ar gyfer dynion sydd wedi cam-drin â phartner o fewn perthynas breifat. Roedd cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau eraill mewn tri chwarter o achosion. Er hynny, gwelsom fod cynllunio i reoli risg o niwed a berir i blant yn annigonol mewn mwy na chwarter o achosion perthnasol ac roedd nifer tebyg heb ymdrin â throseddau cam-drin domestig yn ddigonol. Nid oedd digon o fanylion am drefniadau wrth gefn i fynd i'r afael â'r risg o niwed mewn mwy na thraean o achosion.

2.3. Gweithredu a darparu	Da
Darperir gwasanaethau ansawdd uchel, sylwgar, personol a chydgyssylltiedig, yn ymgysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth.	

A yw'r ddedfryd/cyfnod ar ôl caethiwed yn cael ei weithredu yn briodol gyda ffocws ar ymgysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth?

Roedd yn dda gweld bod gofynion y gorchymyn wedi'u gweithredu yn brydlon yn y mwyafrif o achosion. Gwnaeth hyn fwyafu cysylltiad unigolion, sydd fel arfer yn fwy awyddus i ymgysylltu ar ddechrau'r cyfnod dedfrydu. Roedd perthynas weithio broffesiynol, ymddiriedus wedi'i sefydlu a'i chynnal gyda'r unigolyn, mewn bron pob achos, trwy'r ddedfryd. Lle bo'n berthnasol, roedd lefelau priodol o gysylltu wedi ffurfio perthynas weithio, cyn i'r unigolyn gael ei ryddhau o garchar.

Cymerwyd camau gweithredu yn brydlon pan oedd risg o fethu â chydymffurfio â gofynion y ddedfryd. Ystyriwyd amgylchiadau personol megis oriau gwaith, iechyd meddwl, anabledd a materion symudedd. Gwnaethom nodi ffocws priodol ar yrheini a oedd yn pontio o wasanaethau ieuencid i wasanaethau oedolion.

Defnyddiodd swyddogion cyfrifol lefel resymol o hyblygrwydd i alluogi cwblhau'r ddedfryd. Cofnodwyd barnau proffesiynol yn yr amgylchiadau hynny. Roedd camau gweithredu wedi'u cymryd yn brydlon mewn bron pob achos. Mewn sawl achos, pan oedd yr unigolyn wedi ei alw yn ôl i garchar neu wedi'i ddychwelyd i'r llys yn dilyn tor-cyfraith, roedd yr ymarferwr wedi ceisio ailymgysylltu â'r unigolyn, er enghraifft, trwy gynnal ymweliad carchar i esbonio pam roedd y penderfyniad i'w alw yn ôl i garchar wedi'i wneud. Mewn rhai achosion, pan oedd unigolyn wedi'i ailryddhau, gwelsom contract 'dechrau newydd' yn cael ei ddefnyddio. Rydym yn canmol ymdrechion o'r fath sy'n gwella'r posibilrwydd o gwblhau'r ddedfryd yn llwyddiannus.

A yw goruchwyllo yn canolbwyntio yn ddigonol ar leihau aildroseddu a chefnogi ymataliad y defnyddiwr gwasanaeth?

Yn gyffredinol, roedd darparu gwasanaethau i gefnogi ymatal yn ddigonol mewn llai na dau draean o achosion. Er bod y mwyafrif o unigolion wedi'u gweld yn ddigon aml i gael effaith ar leihau aildroseddu ac i ymdrin ag agweddau ar eu bywydau a gyfrannodd at eu hymddygiad, mewn rhai achosion, roedd rhy ychydig o bwyslais ar waith yn gysylltiedig â throseddau. Nid oedd rhai meysydd yn gysylltiedig â throseddu wedi'u nodi yn yr asesiad a'r cynllun wedi cael eu trin.

Mewn mwy na hanner o'r sampl a arolygwyd, darparwyd digon o ymyriadau i fynd i'r afael â ffactorau yn gysylltiedig â'r teulu a pherthnasoedd, meddwl ac ymddygiad, a chamddefnyddio cyffuriau. Gwelsom atgyfeiriadau hwyr i raglenni achrededig, rhai

ohonynt yn nifer o wythnosau ar ôl i'r gorchymyn cael ei wneud. Unwaith yr oedd yr atgyfeiriad wedi'i wneud, roedd yn annerbyniol bod misoedd wedi mynd heibio cyn i'r unigolyn allu ddechrau'r rhaglen. Roedd rhestrau aros hir ar gyfer rhaglenni megis Adeiladu Perthnasoedd Gwell a Horizon. Roedd gwasanaethau i helpu unigolion gyda llety ac addysg, hyfforddiant a gwaith wedi'u darparu yn ddigonol mewn tri chwarter o achosion.

Roeddem yn falch i weld bod cydweithredu gydag asiantaethau eraill i gefnogi unigolion wedi gweithio yn dda mewn mwy na thri chwarter o achosion. Roedd unigolion allweddol sydd mewn sefyllfa i gefnogi'r troseddwr i ymatal rhag troseddu wedi ymgysylltu â'r troseddwr y rhan fwyaf o'r amser pan oedd yn briodol.


A yw goruchwyllo yn canolbwyntio yn briodol ar reoli a lleihau'r risg o niwed i eraill?

Roedd darparu gwasanaethau i gefnogi diogelwch pobl eraill yn ddigonol mewn bron tri chwarter o achosion. Roedd swyddogion prawf wedi cynnwys asiantaethau eraill yn weithredol ac wedi cyd-drefnu gwaith ar y cyd i reoli a lleihau'r risg o niwed i eraill. Gwelsom waith amlasiantaethol ardderchog gyda'r rheini wedi'u rheoli ar MAPPA lefel 2, yn cynnwys ymweliadau cartref ar y cyd gyda heddlu MOSOVO a gwasanaethau cydgysylltiedig gyda'r rheini dan brosiect WISDOM. Er bod gwaith amlasiantaethol da, nid oedd gwybodaeth brawf wedi'i rhannu ar ViSOR yn rhy aml.

Roedd digon o sylw wedi'i dynnu at amddiffyn dioddefwyr presennol a dioddefwyr posibl mewn bron tri chwarter o achosion. Roedd defnydd priodol wedi'i wneud o'r wybodaeth a ddarparwydtrwy'r trefniadau digwyddiadau adroddadwy gyda'r heddlu. Mae'r system lled electronig hon yn galluogi data llwyth achosion prawf a gwybodaeth am ddigwyddiadau heddlu i'w cyfnewid yn ddyddiol rhwng yr heddlu a'r NPS yn Ne Cymru. Dywedodd swyddogion cyfrifol wrthym fod y broses hon yn gweithio yn dda. Roedd derbyn gwybodaeth yn ddyddiol o'r heddlu wedi cynorthwyo â rheoli'n effeithiol y risg o niwed a berir i eraill.

Lle bo'n angenrheidiolroedd gwyobdaetha dderbyniwydwedi galluogi'r swyddog cyfrifol i weithredu yn gyflym i amddiffyn pobl rhag niwed. Mewn rhai achosion, lle roedd yn briodol, roedd cudd-wybodaeth a dderbyniwyd wedi arwain at gamau gweithredu yn cael eu cymryd. Mae disgwyl y bydd y broses hon yn cael ei gweithredu ledled Cymru ar ôl cynllun peilot.

Yn y mwyafrif o achosion, gwelwyd unigolion yn ddigon aml i reoli a monitro'r risg o niwed a berir. Roedd ymweliadau cartref wedi'u cynnal mewn mwy na thri chwarter o achosion lle byddem wedi disgwyl i hynny ddigwydd.

2.4. Adolygu	Rhagorol
Mae adolygu cynnydd yn digwydd mewn modd gwybodus, dadansoddol a phersonol, yn cynnwys y defnyddiwr gwasanaeth yn weithredol.	

A yw adolygu yn canolbwyntio yn ddigonol ar gefnogi cydymffurfiad ac ymgysylltiad y defnyddiwr gwasanaeth?

Mewn pob achos, rydym yn disgwyl y bydd swyddogion cyfrifol yn monitro ac adolygu unigolion dan eu goruchwyliaeth, ac yn diwygio eu cynlluniau a'u gweithrediadau mewn ymateb i newidiadau mewn ymddygiad peryglus.

Roeddem yn falch i weld bod adolygiadau ysgrifenedig yn canolbwyntio ar gefnogi cydymffurfio ac ymgysylltu mewn bron pob achos. Lle roedd yn ofynnol, gwnaed newidiadau i'r cynllun gwaith cyfredol. Gwnaethom nodi fod swyddogion cyfrifol wedi cynyddu'r lefel o gyswllt yn dilyn cyfnod o fethu â chydymffurfio. Mewn chwarter o achosion, roeddem o'r farn y gallai mwy wedi cael ei wneud i gynnwys yr unigolyn mewn ffordd ystyrlon wrth adolygu eu cynnydd ac wrth archwilio rhwystrau rhag ymgysylltu yn effeithiol.

A yw adolygu yn cefnogi cynnydd tuag at ymatal yn effeithiol?

Gwelsom fod adolygiadau wedi cefnogi cynnydd tuag at ymatal yn effeithiol mewn bron pob achos. Roedd ymarferwyr yn ymatebol i'r posibilrwydd o'r risg yn newid pe byddai'r amgylchiadau yn newid. Pan oedd yn angenrheidiol, gwnaed newidiadau i waith cyfredol i ystyried cynnydd a fu'n digwydd, megis newid cadarnhaol o ran agwedd yn dilyn cwblhau rhaglen achrededig, neu newid negyddol o ran ymddygiad yn dilyn datgysylltu â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

Defnyddiodd swyddogion cyfrifol wybodaeth gan asiantaethau eraill a oedd yn gweithio gyda'r unigolyn, megis gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwaith, addysg ac hyfforddiant, i lywio'r adolygiad. Roedd cofnod ysgrifenedig ffurfiol o gynnydd mewn pob achos ond un.

A yw adolygu yn canolbwyntio yn ddigonol ar risg o niwed i eraill?

Roedd yn ganmoladwy i weld bod adolygiadau, yn gyffredinol, wedi ffocysu yn ddigonol ar gadw eraill yn ddiogel. Ymatebodd swyddogion cyfrifol yn briodol i newidiadau a allai ddangos risg o niwed, megis pan mae perthynas newydd yn dechrau, lle gallai partner fod ar risg, neu lle roedd gwybodaeth gan wasanaethau plant wedi dangos posibilrwydd bod plant mewn perygl. Lle roedd yn angenrheidiol, gwnaethant newid y cynllun gwaith i ystyried y newidiadau i'r risg o niwed. Roedd gwybodaeth gan asiantaethau eraill a oedd yn rhan o'r gwaith gyda'r unigolyn wedi'i defnyddio yn effeithiol i adolygu'r risg o niwed a berir. Adolygwyd risg o niwed mewn cyfarfodydd MAPPA Lefel 2. Roedd adolygiadau ffurfiol bob pedwar mis ar gyfer y rheini yn cael eu rheoli dan MAPPA Lefel 1.

3. Gwaith penodol i'r NPS

Darparodd yr adran adroddiadau i'r llys a oedd o safon dda. Roedd y cynigion a wnaed yn briodol. Dyrannwyd achosion yn brydlon, ond nid oedd yr wybodaeth a ddarparwyd i ddarparwyr prawf ar ôl dedfrydu yn gynhwysfawr. Nid oedd cais am wybodaeth ddiogelu mewn pob achos perthnasol.

Darparwyd gwasanaeth rhagorol i'r rheini a ddewisodd ymuno â'r cynllun cysylltu â dioddefwyr. Canfuom fod dioddefwyr wedi derbyn gwybodaeth gyfredol am yr unigolion hynny a oedd wedi'u dedfrydu. Roedd y gweithio rhwng swyddogion cyswllt dioddefwyr a swyddogion cyfrifol yn dda ac roeddynt wedi'u cynnwys yn MAPPA yn briodol.

Cryfderau:

- Darparwyd adroddiadau cyn-dedfrydu o ansawdd da i'r llys.
- Darparwyd gwasanaeth rhagorol i ddiodefwyr a ddewisodd ymuno â'r cynllun cysylltu â dioddefwyr.

Meysydd i'w gwella:

- Cyn dedfrydu, nid oedd cyswllt gyda gwasanaethau plant ac unedau cam-drin domestig wedi'i wneud mewn pob achos perthnasol.
- Nid oedd asesiadau risg o niwed difrifol wedi'u cwblhau mewn pob achos perthnasol cyn iddynt gael eu dyrannu i'r darparwr prawf priodol.
- Ni wnaeth adroddiadau hysbysu'r dedfrydwr bob amser o effaith y trosedd ar y dioddefwr.

3.1 Adroddiadau llys a dyrannu achosion

Da

Mae'r wybodaeth a'r cyngor cyn-dedfrydu a ddarperir i'r llys o gymorth i'r llys wrth iddo wneud penderfyniadau, ag achosion yn cael eu dyrannu yn briodol yn dilyn y broses ddedfrydu.



A yw'r cyngor cyn-dedfrydu yn digwydd mewn modd digon gwybodus, dadansoddol a phersonol i'r defnyddiwr gwasanaeth, yn cefnogi'r llys wrth wneud penderfyniad?

Roedd gwybodaeth cyn-dedfrydu a ddarparwyd i'r llys yn ddigon dadansoddol a phersonol, ac roedd yr wybodaeth o gymorth i'r llys wrth wneud penderfyniad mewn tri o bedwar achos. Roedd bron dau draean o adroddiadau a samplwyd wedi'u hysgrifennu ar yr un diwrnod â gwnaeth y diffynnydd gynnig ple neu wedi'i ddyfarnu yn euog; nid oedd yn glir o'r cofnod, mewn ychydig o achosion eraill, pryd oedd yr adroddiad wedi'i baratoi.

Roedd cofnodion o euogfarnau blaenorol a phapurau erlyn ar gael yn y mwyafrif o achosion, ond ni ddefnyddiwyd y rhain bob amser mewn un o dri adroddiad. Roedd y cyngor i'r llys wedi ystyried ffactorau yn gysylltiedig â throeddu yn ddigon manwl, ac ystyriwyd ffactorau yn gysylltiedig â risg o niwed i eraill yn y mwyafrif o achosion.

Ystyriwyd ffactorau amrywiaeth ac amgylchiadau personol mewn mwy na dau draean o adroddiadau. Mewn tri chwarter o'r adroddiadau, roedd yr awdur wedi ystyried cymhelliad a pharodrwydd yr unigolyn i newidyn ddigonol. Roedd mwy na dau draean o'r adroddiadau, lle roedd yn berthnasol, wedi hysbysu'r llys o'r effaith a gafodd y trosedd ar ddiodefwyr adnabyddadwy.


Y prif gynnig a wnaed i'r llys oedd am dedfryd gymunedol gyda gofyniad gweithgaredd adsefydlu. Yn unol â'r canfyddiadau o adroddiad thematig Arolygiaeth Prawf EM, *Gwaith gwasanaethau prawf mewn llysoedd*,¹⁶ gwelsom gyfradd gynnig isel iawnar gyfer rhaglenni achrededig. Roedd 95 o adroddiadau llys yn ein sampl; o'r 11 cynnig a wnaed i'r llys am raglen achrededig, dedfrydwyd 9 i ofyniad rhaglen. Gwelsom dystiolaeth yn y sampl gyfan o adroddiadau a arolygwyd i awgrymu y dylai rhaglenni achrededig fod wedi cael eu cynnig mewn tri achos ychwanegol o leiaf.

Mae arweinydd strategol NPS ar gyfer gwasanaethau llys ar draws Cymru. Mae perthnasoedd gyda dedfrydwyr yn dda; mae fforwm dedfrydwyr yn cael ei fynychu gan y NPS a'r farnwriaeth, ac mae cyfarfodydd perfformiad llys eraill yn cael eu cynnal yn aml.

A yw'r broses o ddyrannu achos yn digwydd mewn ffordd brydlon a chywir, yn seiliedig ar ddigon o wybodaeth?

Roedd bron pob achos wedi'i ddyrannu yn brydlon i'r asiantaeth gywir. Mae'r CRC yn dibynnu ar gael gwybodaeth wedi'i chynnwys yn yr adroddiad er mwyn cychwyn goruchwyllo'r achos. Roedd yr asesiad a'r cyngor a roddwyd i'r llys, a'r wybodaeth a ddarparwyd i'r asiantaeth a oedd yn gyfrifol am oruchwyllo yn annigonol mewn bron traean o achosion.

Roedd o bryder inni fod ymholiadau i uned cam-drin domestig yr heddlu heb gael eu gwneud mewn 65 achos lle dylai hyn fod wedi digwydd. Ni wnaeth swyddogion cyfrifol ymholiadau i wasanaethau plant mewn 26 achos lle roedd angen ei gwneud. Ni chwblhawyd dadansoddiad risg o niwed llawn cyn i'r achos gael ei ddyrannu mewn mwy na hanner o'r achosion. Roedd hyn yn golygu nad oedd gwybodaeth hanfodol ar gael bob amser pan oedd yr achos wedi'i ddyrannu.

3.2 Gwaith statudol gyda diodefwyr	Rhagorol
Darperir gwybodaeth berthnasol ac amserol i ddiodefw(y)r trosedd difrifol, ac mae cyfle iddynt fynegi eu barn ar adegau allweddol y ddedfryd.	

A yw'r cyswllt cyntaf gyda'r diodefwyr yn annog ymgysylltu â'r cynllun cyswllt â diodefwyr?

Mae'r cysylltu â diodefwyr troseddau difrifol yn un o gryfderau yr adran. Ar adeg yr adolygiad, roedd NPS Cymru yn rheoli 2,466 o achosion byw. Mae tîm cyswllt diodefwyr mewn pob LDU. Roedd y cyswllt cyntaf gyda diodefwyr wedi annog ymgysylltu â'r cynllun mewn nifer fawr o achosion. Roedd mwy na thri chwarter o'r llythyrau cychwynnol i ddiodefwyr yn bersonol, yn cynnwys manylion cyswllt y swyddog cyswllt diodefwyr a digon o wybodaeth i alluogi'r diodefwyr i wneud penderfyniad cytbwys ynglŷn â chymryd rhan yn y cynllun neu beidio. Yn ddiweddar,

¹⁶Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. (2017). *Gwaith y gwasanaethau prawf yn y llys*.

trefnwyd bod llythyrau ar gael yn Gymraeg. Roedd bron pob cyswllt wedi'i wneud o fewn amser briodol ar ôl dedfrydu.

A yw'r cyswllt personol gyda'r dioddefwr yn digwydd mewn modd amserol a chefnogol, yn darparu gwybodaeth briodol am y system gyfiawnder droseddol?

Roedd cyswllt personol gyda'r dioddefwr wedi darparu gwybodaeth briodol am y cynllun cysylltu â dioddefwyr, yn ogystal â gwybodaeth ac esboniad am y broses gyfiawnder droseddol. Cafodd dioddefwyr amserlenni a manylion gwybodaeth am bethfyddent yn disgwyl eu derbyn a pha fewnbnw y gallent ei roi. Roedd cofnod ysgrifenedig o'r drafodaeth a gafwyd yn ystod y cyfarfod wedi'i rannu gyda'r dioddefwyr mewn un o bedwar achos.

Roedd y mwyafrif o ddioddefwyr wedi'u hatgyfeirio at asiantaethau eraill ac wedi cael gwybodaeth am help a chefnogaeth oedd ar gael. Yn Ne Cymru, mae canolfan dioddefwyr yn cael ei hwyluso yn allanol ac mae'n cynnig cefnogaeth ychwanegol, megis cwnsela. Comisiynwyd canolfan gan y PCC mewn ymateb i angen a nodwyd i flaenoriaethu cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr troseddau. Mae NPS Cymru yn cadw cofnod ysgrifenedig clir o'u gwaith gyda dioddefwyr. Rhennir nodiadau ysgrifenedig o drafodaethau gyda nhw mewn un o bedwar achos o'r trafodaethau gyda dioddefwyr.

A yw cyswllt cyn rhyddhau gyda'r dioddefwyr yn eu galluogi i wneud cyfraniadau priodol i'r amodau rhyddhau?

Os bydd y dioddefwyr yn gwneud cyfraniad priodol i'r amodau rhyddhau, bydd angen cysylltu mewn da bryd cyn i'r troseddwr gael ei ryddhau o'r ddalfa. Roedd hyn wedi'i wneud yn ddigonol ar bob achlysur. Cafodd dioddefwyr gyfle i fynegi pryderon am ryddhau'r unigolyn. Roedd y pryderon hyn wedi'u hystyried a'u trin mewn pob achos, ac roedd sylw wedi'i dynnu at eu diogelwch wrth iddynt gynllunio am ryddhau.

Mae swyddogion cyfrifol yn gweithio gyda staff cyswllt dioddefwyr yn dda. Mae hyn yn rhannol wir oherwydd eu bod wedi'u lleoli ar y cyd. Roedd rhai swyddogion cyfrifol wedi cymryd cyfle i gysgodi swyddogion cyswllt dioddefwyr (VLOs) ar ymweliadau cartref i weld dioddefwyr (lle nad oes gwrthdaro buddiannau) gan roi dealltwriaeth well iddynt am safbwynt y dioddefwr. Rhoddodd ymarferwyr wybodaeth gyfredol i'r VLOs am reoli'r troseddwr mewn pob achos ond un. Canfuom fod staff cyswllt dioddefwyr wedi'u cynnwys yn MAPPA yn briodol mewn pob achos perthnasol.

Atodiad 1: Methodoleg

Gweler isod crynodeb o'r fethodoleg arolygu, wedi'i chysylltu â'r tri pharth yn ein fframwaith safonau. Gwnaethom ganolbwyntio ar gael tystiolaeth yn erbyn y safonau, cwestiynau allweddol a'r awgrymiadau yn ein fframwaith arolygu.

Parth un: Cyflawni sefydliadol

Cyflwynodd y darparwr dystiolaeth ymlaen llaw a rhoddodd Cyfarwyddwr Adrannol NPS Cymru gyflwyniad yn trafod y meysydd canlynol:

- Sut mae arweinyddiaeth y sefydliad yn cefnogi ac yn hyrwyddo darparu gwasanaeth ansawdd uchel, personol ac ymatebol ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth?
- Sut mae staff yn y sefydliad yn cael ei awdurdodi i ddarparu gwasanaeth ansawdd uchel, personol ac ymatebol ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth?
- A oes ystod eang o wasanaethau ansawdd uchel mewn lle, yn cefnogi gwasanaeth unigol ac ymatebol i bob defnyddiwr gwasanaeth?
- A oes gwybodaeth amserol a pherthnasol ar gael, ac a oes cyfleusterau addas mewn lle i gefnogi dull ansawdd uchel, personol ac ymatebol ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth?
- Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer gwelliant pellach, a pham?

Yn ystod prif gyfnod y gwaith maes, gwnaethom gyfweid â 62 swyddog cyfrifol unigol, yn gofyn iddynt am eu profiadau o hyfforddiant, datblygiad, goruchwyliaeth reoli ac arweinyddiaeth. Gwnaethom gynnal amrywiaeth o gyfarfodydd a grwpiau ffocws, a wnaeth adael inni driongli tystiolaeth a gwybodaeth. Cynhaliwyd 30 cyfarfod gennym. Roedd y dystiolaeth a archwiliwyd dan y parth hwn wedi'i hystyried yn erbyn ein nodweddion graddio cyhoeddedig.¹⁷

Parth dau: goruchwyllo achosion

Gwnaethom gwblhau asesiadau achosion dros gyfnod o bythefnos, yn archwilio ffeiliau defnyddwyr gwasanaethau ac yn cyfweid â swyddogion cyfrifol. Yr achosion a ddewiswyd oedd y rhai hynny o'r unigolion hynny a fu dan goruchwyliaeth gymunedol am ryw chwech i saith mis (naill ai trwy dedfryd gymunedol neu yn dilyn rhyddhau o'r ddalfa). Gwnaeth hyn ein galluogi i archwilio gwaith mewn cysylltiad ag asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu. Lle roedd angen, cynhaliwyd cyfweiliadau gyda phobl eraill a oedd yn rhan o'r achos hefyd.

Gwnaethom archwilio 96 achos o 5 uned drosglwyddo leol. Roedd maint y sampl wedi'i osod i gyflawni lefel hyder o 80 y cant (gyda lwfans gwallau o 5), a gwnaethom sicrhau bod y cymarebau mewn cysylltiad â rhyw, math o benderfyniad a'r lefel risg o niwed dirifol yn cyd-fynd â'r rhain yn y boblogaeth gymwys.

¹⁷Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. (2018). *Arolygiad gwasanaeth prawf - Nodweddion graddio parth un*. <https://www.justiceinspectrates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2018/05/Probation-Domain-One-rating-characteristics-March-18-final.pdf>

Parth tri: gwaith penodol i'r sector

Gwnaethom gwblhau asesiadau achosion am ddwy sampl ychwanegol: (i) adroddiadau llys a dyrannu achosion a (ii) gwaith dioddefwyr.

Adroddiadau llys a dyrannu achosion

Fel yn achos parth dau, roedd maint y sampl wedi'i osod i gyflawnlefel hyder o 80 y cant (gyda lwfans gwallau o 5). Gwnaethom ddewis achosion lle roedd yr adroddiad llys wedi'i gwblhau naw wythnos ynghynt, a lle roedd yr unigolyn wedi'i ddedfrydu i orchymyn cymunedol, gorchymyn dedfryd ohiriedig, neu gaethiwed ar unwaith. Gwnaethom archwilio 95 achos, gan sicrhau bod y cymarebau mewn cysylltiad â'r math o adroddiad a dyraniad CRC/NPS yn cyd-fynd â'r rhai hynny yn y boblogaeth gymwys. Gwnaethom ddefnyddio'r system reoli achosion a'r system asesu i arolygu'r achosion hyn, yn barnu ansawdd y dystiolaeth ysgrifenedig yn yr adroddiad a ddarperir i'r llys, ansawdd y broses o gasglu data yn y llys a'r cyfnod dyrannu, a chywirdeb y penderfyniad dyrannu.

Fe wnaethom gynnal cyfarfodydd gyda'r grwpiau/unigolion canlynol hefyd, yn ein galluogi i driongli tystiolaeth a gwybodaeth:

- yr uwch reolwr yn gyfrifol am wasanaethau i'r llysoedd
- uwch swyddogion prawf yn gyfrifol am reoli timau llys
- staff dyletswydd y llys o leoliadau llysoedd gwahanol.

Gwaith gyda dioddefwyr

Gwnaethom archwilio 33 achos gwarchodol a ddechreuodd chwech i saith mis ynghynt a lle roedd y dioddefwr yn gymwys ar gyfery cynllun statudol i gysylltu â dioddefwyr. Roedd maint y sampl hwn wedi'i osod i gyflawni lefel hyder o 80 y cant (gyda lwfans gwallau o 5), yn seiliedig ar y nifer o achosion lle roedd cysylltu â dioddefwyr wedi dechrau. Edrychom ar sut oedd y cyswllt cyntaf wedi'i wneud cyn rhyddhau ac ar ôl rhyddhau, a oedd hyn yn amserol, ac ansawdd y cyswllt a gynigwyd. Gwnaeth y sampl gynnwys cymhareb gyfrannol o achosion lle roedd cyswllt wedi digwydd ac achosion lle nad oedd cyswllt wedi digwydd. I archwilio gwaith dioddefwyr cyn rhyddhau ac ar ôl rhyddhau, edrychom ar 10 achos o'r sampl achos parth dau. Mae'r data cyhoeddedig yn annigonol i gyfrif lefelau hyder ar gyfer maint sampl y cynllun cysylltu â dioddefwyr, felly roedd yr achosion hyn wedi'u nodi o'r sampl achos parth dau.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r grwpiau/unigolion canlynol:

- yr uwch reolwr yn gyfrifol am y gwasanaeth cysylltu â dioddefwyr, yn cynnwys adolygiad o ganfyddiadau yr arolwg boddhad dioddefwyr blynyddol
- grŵp o reolwyr tîm cyswllt dioddefwyr
- grŵp o swyddogion cysylltu â dioddefwyr.

Atodiad 2: Canlyniadau arolygu: parth dau a thri

2. Goruchwyllo achosion

Cwestiwn Safonol/Allweddol

2.1. Asesu

Mae asesu yn digwydd mewn modd gwybodus, dadansoddol a phersonol, yn cynnwys y defnyddiwr gwasanaeth yn weithredol **Da**

- 2.1.1. A yw asesu yn canolbwyntio yn ddigonol ar ymgysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth? 78%
- 2.1.2. A yw asesu yn canolbwyntio yn ddigonol ar ffactorau yn gysylltiedig â throeddu ac ymatal? 79%
- 2.1.3. A yw asesu yn canolbwyntio yn ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? 79%

2.2. Cynllunio

Mae cynllunio yn digwydd mewn modd gwybodus, cyfannol a phersonol, yn cynnwys y defnyddiwr gwasanaeth yn weithredol. **Da**

- 2.2.1. A yw cynllunio yn canolbwyntio yn ddigonol ar ymgysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth? 76%
- 2.2.2. A yw cynllunio yn canolbwyntio yn ddigonol ar leihau aildroeddu a chefnogi ymatal y defnyddiwr gwasanaeth? 70%
- 2.2.3. A yw cynllunio yn canolbwyntio yn ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?¹⁸ 75%

2.3. Gweithredu a darparu

Darperir gwasanaethau ansawdd uchel, sylwgar, personol a chydgyssylltiedig, yn ymgysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth. **Da**

- 2.3.1. A yw'r ddedfryd/cyfnod ar ôl caethiwed yn cael ei weithredu yn effeithiol gyda ffocws ar ymgysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth? 92%
- 2.3.2. A yw gweithredu a darparu'r gwasanaeth yn cefnogi ymataliad y defnyddiwr gwasanaeth yn effeithiol? 65%

¹⁸ Noder: Mae'r canrannau mewn cysylltiad â chwestiynau 2.2.3, 2.3.3 a 2.4.3 wedi'u cyfrifo ar gyfer yr *is-sampl* perthnasol – hynny yw, yr achosion hynny lle mae materion risg o niwed difrifol yn gymwys, yn hytrach nag ar gyfer y *sampl* arolygu gyfan.

2.3.3. A yw gweithredu a darparu'r gwasanaeth yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?	71%
---	-----

2.4. Adolygu

Mae adolygu cynnydd yn digwydd mewn modd gwybodus, dadansoddol a phersonol, yn cynnwys y defnyddiwr gwasanaeth yn weithredol.	Rhagorol
---	-----------------

2.4.1. A yw adolygu yn canolbwyntio yn ddigonol ar gefnogi cydymffurfiad ac ymgysylltiad y defnyddiwr gwasanaeth?	96%
---	-----

2.4.2. A yw adolygu yn canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymatal y defnyddiwr gwasanaeth?	94%
---	-----

2.4.3. A yw adolygu yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	89%
--	-----

3. Gwaith penodol i'r NPS

Cwestiwn Safonol/Allweddol

3.1. Adroddiadau llys a dyrannu achosion

Mae'r wybodaeth a'r cyngor cyn-dedfrydu a ddarperir i'r llys o gymorth i'r llys wrth iddo wneud penderfyniadau, ag achosion yn cael eu dyrannu yn briodol yn dilyn y broses ddedfrydu.	Da
--	-----------

3.1.1. A yw'r wybodaeth a'r cyngor cyn-dedfrydu a ddarperir i'r llys yn ddigon dadansoddol a phersonol i'r defnyddiwr gwasanaeth, yn cefnogi'r llys wrth iddo wneud penderfyniadau?	72%
---	-----

3.1.2. A yw'r dyrannu achos yn brydlon a chywir, yn seiliedig ar ddigon o wybodaeth?	70%
--	-----

3.2. Gwaith statudol gyda dioddefwyr

Darperir gwybodaeth berthnasol ac amserol i ddiodefw(y)r trosedd difrifol, ac mae cyfle iddynt fynegi eu barn ar adegau allweddol y ddedfryd.	Rhagorol
---	-----------------

3.2.1. A yw'r cyswllt cyntaf gyda'r diodefw(y)r yn annog ymgysylltu â'r cynllun cyswllt â diodefwyr?	82%
--	-----

3.2.2. A yw'r cyswllt personol gyda'r diodefw(y)r yn digwydd mewn modd amserol a chefnogol, gan ddarparu gwybodaeth briodol am y broses gyfiawnder droseddol?	90%
---	-----

Cwestiwn Safonol/Allweddol


- | | |
|---|-----|
| 3.2.3. A yw cyswllt cyn rhyddhau gyda'r dioddefw(y)r yn eu galluogi i wneud cyfraniadau priodol i'r amodau rhyddhau? | 80% |
| 3.2.4. A oes cyfathrebu da rhwng yr un sy'n rheoli'r troseddwr a'r un sy'n cysylltu â'r dioddefwr i gefnogi diogelwch dioddefw(y)r? | 80% |



WALES Division – 5 LDU's Map

Key

- Probation Offices
- Approved Premises
- Prisons



Darparwyd gan Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru

Y model gweithredu ar waith

Mae gan NPS Cymru bump uned drosglwyddo leol (LDUs), pob un yn cael ei harolygu gan bennaeth o'r LDU. Mae pedwar o'r pump LDU wedi'u categorio yn gymhleth, yn seiliedig ar y nifer o lysoedd, awdurdodau lleol, llwyth achosion a threfniadau partneriaeth allanol. Mae NPS Cymru yn gweithio i'r model gweithredu NPS cenedlaethol. Mae timau llys penodedig wedi'u lleoli mewn pob LDU, lle mae staff yn cwblhau pob adroddiad llys ac yn darparu cyngor i ddedfrydwyr. Mae'r timau llys yn ymgymryd â chwlbhau'r adnodd Risg o Atgwympiad Difrifol, yr adnodd system ddyrannu achosion a'r adnodd fframwaith cynnig effeithiol newydd gael ei gyflwyno i sicrhau bod cynigion yn adlewyrchu arferion gorau a'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau.

Mae'r adran yn defnyddio fframwaith saith categori ar gyfer dyrannu achosion. Mae swyddogion prawf yn rheoli pob achos sy'n cyflwyno risg uchel a risg uchel iawn o niwed difrifol, lle mae swyddogion gwasanaeth prawf hyfforddedig (PSOs) yn rheoli achosion sy'n gosod risg isel a risg ganolig. Mae PSOs yn ymgymryd â chefnogaeth reoli achosion hefyd i gynorthwyo rheolwyr troseddwr gyda thasgau penodol.

Mae timau goruchwyllo cymunedol yn rheoli achosion gwarchodol ac achosion cymunedol. Mae nifer o swyddogion prawf wedi'u lleoli mewn carchardai yng Nghymru ac maent wrthi yn gweithio fel goruchwylwyr troseddwr ac yn gweithio tuag at weithredu'r model OMiC. Mae staff yn cael eu cyflogi ym mhob tîm troseddau ieuencid yng Nghymru a maent yn gweithio yn agos gyda Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru.

Mae'r tîm cynghori uwchgyfeirio risg ac adalw (RERAT) yn gyfrifol am gyswllt uwchgyfeirio risg â CRC Cymru ac ymgysylltu â nhw mewn perthynas ag adalwadau sy'n darparu cysondeb wrth wneud penderfyniadau yn y rhyngweithiad pwysig hwn.

Mae swyddogion cyswllt dioddefwyr arbenigol yn darparu'r gwasanaeth cysylltu â dioddefwyr cenedlaethol yn seiliedig ar y fanyleb ar gyfer gwasanaethau dioddefwyr.

Mae pedwar safle cymeradwy yng Nghymru (dau yng Ngogledd Cymru a dau yn Ne Cymru) yn darparu arolygiaeth ar gyfer troseddwr yn y gymuned yn ogystal â threfn adsefydlu.

Mae tîm rhaglen achrededig penodedig yn darparu rhaglenni ymddygiad troseddol ar gyfer dynion sydd wedi'u cyhuddo o droseddau rhyw ac yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Seicoleg Fforensig yng Nghymru i gynnig cyngor a chymorth i reolwyr troseddwr yn goruchwyllo'r achosion hyn.

Mae gan y NPS bedwar cydlynnydd MAPPA (un ar gyfer pob ardal MAPPA yng Nghymru) a phrosiect Cylchoedd Cefnogaeth mewnol lle mae cydlynnydd gwirfoddol yn goruchwyllo darparu'r gwasanaeth.

Mae'r tîm ymgysylltu â rhanddeiliaid yn arolygu cysylltiadau strategol â phartneriaid allweddol, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, yn ogystal â gwasanaethau penodedig, megis y cynllun Braenaru Menywod a'r Llwybr Anhwylderau Personoliaeth.

Mae pob pennaeth gwasanaeth yn ymgymryd â rôl arweinydd strategol hefyd fel amlinellir yn y ddogfen uchod.

Gwasanaethau ar gael a chysylltiad y trydydd sector

Mae NPS Cymru yn gweithio'n agos gyda Chwmni Adsefydlu Cymunedol ac yn ymgysylltu â nifer o wasanaethau trwy ddefnyddio ei gerdyn cyfradd. Mae'r rheini yn cynnwys rhaglenni achrededig, ymyriadau Gofynion Gweithgareddau Adsefydlu,

Gwasanaethau Trwy'r Porth, mentora a chyngor arbenigol mewn meysydd megis llety a gwaith.

Fel rhan o'r system cerdyn cyfradd, mae'r darparwyr cadwyni cyflenwi yn cynnig ystod o wasanaethau, er enghraifft, gwasanaethau Trwy'r Porth St Giles Trust, mae Cymru Ddiogelach yn ymgymryd â gwaith penodol gyda throseddwyr sy'n fenywod, mae Pact Futures yn darparu gwasanaeth mentora ac mae Justice Cymru yn darparu cyngor ynghylch llety.

Mae NPS Cymru yn gweithio gyda nifer o bartneriaid trydydd sector hefyd ar draws LDUs (tu allan i'r trefniadau cerdyn cyfradd) sy'n darparu cyngor mewn meysydd gwahanol megis llety, gwaith a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r rhain yn cynnwys sefydliadau megis Y Wallich a Llamau.

Fel rhan o HMPPS Cymru, mae nifer o wasanaethau camddefnyddio sylweddau yn cael eu comisiynu ar y cyd mewn partneriaeth â'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. Mae'r trefniadau hyn sydd wedi'u comisiynu yn cynnwys partneriaid darparu megis G4S, Kaleidoscope, Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Gwent aGwasanaeth Gwybodaeth Alcohol Cyngor.

Atodiad 4: Rhestr termau

Rhaglen achrededig	Rhaglen o waith a drosglwyddir i droseddwr mewn grwpiau neu yn unigol trwy ofyniad gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig, neu ran o ddedfryd garchar neu amod trwydded garchar. Achredir rhaglenni achrededig gan y Panel Achredu Gwasanaethau Cywirol fel dull effeithiol o leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu.
Dyrannu	Y broses o benderfynu a fydd troseddwr yn cael ei oruchwylio gan y CRC neu gan yr NPS.
Dull	Y ffordd o benderfynu sut i fynd ati i wneud rhywbeth; mae dull yn gyfuniad o brosesau a gweithrediadau strwythuredig o fewn fframwaith o egwyddorion a pholisïau.
Safleoedd cymeradwy	Safleoedd wedi'u cymeradwyo dan Adran 13 Deddf Rheoli Troseddwr 2007, a reolir naill ai gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu gan sefydliadau annibynnol. Mae safle cymeradwy yn cael ei ddefnyddio fel llety tymor byr ar gyfer troseddwr wedi'i ystyried yn risg uchel o niwed difrifol, sydd angen monitro a goruchwylio agos, a chefnogaeth i ddechrau integreiddio i'r gymuned.
ARMS	System Weithredol Rheoli Risg: mae'n darparu fframwaith awdurdoedig ar gyfer gweithio gyda throseddwr rhyw sydd yn dod o dan oruchwyliaeth statudol.
Asesu	Y broses lle mae penderfyniad yn cael ei wneud am y math o bethau y gallai unigolyn eu gwneud i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu a/neu achosi niwed pellach
Rhwystrau	Y pethau sy'n eu gwneud yn anodd i unigolyn newid.
Adeiladu Perthnasoedd Gwell	Rhaglen o waith grŵp sydd wedi ei hachredu yn genedlaethol i leihau aildroseddu gan oedolion gwrywaidd sydd yn troseddu yn dreisgar yn erbyn partner agos.
Toriad (ar orchymyn neu drwydded)	Lle mae troseddwr yn methu â chydymffurfio ag amodau gorchymyn llys neu drwydded. Gall camau gweithredu gael eu cymryd i ddychwelyd y troseddwr i'r llys am gamau gweithredu ychwanegol neu i'w adalw yn ôl i'r carchar.
Cynllun busnes	Cynllun sy'n gosod amcanion y sefydliad. Gall hefyd gael ei gyfeirio ato fel cynllun sefydliadol neu gynllun corfforaethol
Diogelu plant	Y gallu i ddangos bod lles plentyn neu berson ifanc wedi'i 'ddiogelu'. Mae hyn yn cynnwys - ond gall fod yn ehangach nag - amddiffyn plant. Mae'r term 'diogelu' yn cael ei ddefnyddio hefyd mewn perthynas ag oedolion hyglwyf.
Cylchoedd Cefnogaeth ac Atebolrwydd	Elusen gofrestrdedig yn gweithio yng Nghymru a Lloegr i ddarparu grwpiau o wirfoddolwyr gyda goruchwyliaeth broffesiynol i gefnogi troseddwr rhyw i ailintegreiddio i gymdeithas ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar.

	Cwmni Adsefydlu Cymunedol: sefydlwyd 21 cwmni o'r math hwn ym Mehefin 2014, i reoli y mwyafrif o droseddwy'r sydd yn gosod risg isel neu ganolig o niwed difrifol.
Adroddiad llys	Mae hyn yn golygu unrhyw adroddiad a baratoir ar gyfer y llys i lywio dedfrydu, naill ai wedi ei gyflwyno ar lafar neu yn ysgrifenedig.
System cyfiawnder troseddol	Mae'n cynnwys unrhyw asiantaeth neu bob un o'r asiantaethau wedi'i chynnwys mewn cynnal a gweithredu'r gyfraith - yr heddlu, llysoedd, timau troseddau ieuenticid, gwasanaeth prawf a charchardai.
Ymatal	Terfyn ar droseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol
Amrywiaeth	Y graddau i ble mae pobl o fewn sefydliad yn cydnabod, gwerthfawrogi a defnyddio'r nodweddion sy'n gwneud i sefydliad a'i ddefnyddwyr gwasanaethau yn unigryw. Gall amrywiaeth ymwneud ag oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, a rhyw
ETE	Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: gwaith i wella dysg unigolyn, ac i wella eu cyfleoedd gwaith.
Gorfodi	Cam a gymerir gan swyddog cyfrifol mewn ymateb i unigolyn yn methu â chydymffurfio â dedfryd gymunedol neu drwydded. Gall gorfodi fod yn gosbol neu yn gymhellol.
Cydraddoldeb	Sicrhau bod pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch, heb ystyried oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, a rhyw. Mae hefyd yn golygu cydnabod bod gan grwpiau amrywiaethol anghenion gwahanol, a sicrhau bod ganddynt fynediad cyfartal a theg at gyfleoedd addas.
EQuIP	Rhagoriaeth ac Ansawdd ar Waith: adnodd cenedlaethol seiliedig ar y we gan y NPS yn darparu gwybodaeth gyson am y prosesau i'w dilyn mewn pob agwedd ar waith y NPS. Mae mesurau sicrhau ansawdd yn sail i 'r broses fapio
HMPPS	Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi: o 1 Ebrill 2017, daeth HMPPS yn asiantaeth unigol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau carchardai a gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr. Ar yr un pryd, cymerodd Y Weinyddiaeth Cyfiawnder gyfrifoldeb am gyfeiriad polisi yn gyffredinol, gosod safonau, craffu ar berfformiad carchardai a chomisiynu gwasanaethau. Roedd y rhain yn arfer dod o dan gyfrifoldeb y Gwasanaeth Rheoli Troseddwy'r Cenedlaethol (yr asiantaeth sydd wedi'i disodli gan HMPPS).
Horizon	Rhaglen waith achrededig genedlaethol wedi'i chynllunio ar gyfer troseddwy'r rhyw gwryw sy'n cyflwyno risg ganolig.
Rheoli Integredig Troseddwy'r	Ymateb traws-asiantaethol i'r trosedd a'r bygythiadau o aildroseddu a wynebir gan gymunedau lleol. Mae'r troseddwy'r mwyaf dyfalbarhaus a phroblematig yn cael eu hadnabod a'u rheoli ar y cyd gan asiantaethau partneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd.
Ymyriadau	Gwaith gydag unigolyn sydd wedi ei gynllunio i newid ei ymddygiad troseddol a/neu helpu amddiffyn y cyhoedd. Ymyriad adeiladol yw lle mai'r prif ddiben yw lleihau'r

	tebygolrwydd o aildroseddu. Ymyriad cyfyngol yw lle mai'r prif ddiben yw sicrhau bod risg yr unigolyn o beri niwed i eraill yn cael ei gadw i'r isafswm. Er enghraifft, gyda throreddwr rhyw, gallaiymyriad adeiladol olygu rhoi'r troreddwr trwy raglen achrededig ar gyfer troreddwyr rhyw; gallai ymyriad cyfyngol (i leihau risg yr unigolyn o achosi niwed i eraill) olygu monitro'n rheolaidd ac yn drylwyr eu llety, eu gwaith, a'r manau y maent yn eu mynychu, gan osod a gorfodi cyfyngiadau clir fel bo'n addas i bob achos. Mae'r ddau fath o ymyriad yn bwysig.
Trwydded	Mae hyn yn gyfnod o oruchwyllo sy'n digwydd yn syth ar ôl rhyddhau o'r ddalfa, ac fel rheol mae'n cael ei weithredu ar ôl i'r troreddwr gyflawni hanner ei ddedfryd. Gall unrhyw doriadau ar amodau'r drwydded arwain at yr unigolyn yn cael ei alw yn ôl i'r carchar lle gallai'r troreddwr aros yn y ddalfa am gyfnod ei ddedfryd wreiddiol.
LDU	Uned drosglwyddo leol: uned weithredol yn cynnwys swyddfa neu swyddfeydd, gan amlaf yn cydffinio gydag unedau rheoli sylfaenol yr heddlu a strwythurau awdurdodau lleol.
MAPPA	Trefniadau Amlasiantaethol Amddiffyn y Cyhoedd: lle mae'r NPS, yr heddlu, carchardai ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troreddwyr sy'n peri risg uwch o niwed i eraill. Mae Lefel 1 yn rheolaeth asiantaeth cyffredinol lle mae modd rheoli'r risg a gyflwynir gan y troreddwr gan yr asiantaeth sydd yn gyfrifol am oruchwyliaeth neu reolaeth achos y troreddwr. Mae hyn yn cymharu â Lefelau 2 a 3, sydd yn gofyn am reolaeth weithredol amlasiantaethol.
Cynlluniau am newid	Pecyn cymorth ar gyfer gweithio gyda throreddwyr rhyw gwryw sy'n peri risg isel o aildroseddu, a'r rheini lle na fyddai rhaglen achrededig yn addas ar eu cyfer.
MARAC	Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol: rhan o ymateb cymunedol cydgysylltiedig at gam-drin domestig, yn cynnwys cynrychiolwyr o asiantaethau statudol, cymunedol a gwirfoddol yn gweithio gyda dioddefwyr/goroeswyr, plant a'r cyflawnwr troredd honedig.
Mentora	Y cyngor a'r cyfarwyddyd a gynigir gan berson mwy profiadol i ddatblygu potensial unigolyn.
MoJ	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: adran y llywodraeth sy'n gyfrifol am system weinyddiaeth gyfiawnder y Deyrnas Unedig.
MOSOVO	Rheolaeth Troreddwyr Rhyw a Throreddwyr Treisgar: Mae'r cwrs hyfforddi achrededig yn darparu ymarferwyr Uned Amddiffyn y Cyhoedd yr heddlu gyda'r sgiliau a'r wybodaeth i'w galluogi i adnabod a rheoli troreddwyr rhyw, troreddwyr treisgar a throreddwyr peryglus eraill sydd yn dod o dan Drefniadau Amlasiantaethol Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA).
NPS	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol: gwasanaeth cenedlaethol unigol a ddaeth i rym ym Mehefin 2014. Rôl y gwasanaeth yw darparu gwasanaethau i lysoedd a rheoli grwpiau penodol o droreddwyr, yn cynnwys y rhai hynny sydd yn cyflwyno risg uchel neu risg uchel iawn o achosi niwed difrifol a'r rhai hynny sydd yn dod o dan oruchwyliaeth MAPPA yng Nghymru a Lloegr.

OASys/eOASys/ OASys R	System Asesu Troseddwy: System a ddefnyddir ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr gan y NPS a'r CRC i fesur risgiau ac anghenion troseddwy dan oruchwyliaeth.
Rheoli troseddwy	Un o egwyddorion craidd rheoli troseddwy yw bod un ymarferwr yn cymryd cyfrifoldeb am reoli troseddwr trwy'r ddedfryd, p'un a fydd yn digwydd yn y ddalfa neu yn y gymuned.
Partneriaid	Mae partneriaid yn cynnwys sefydliadau statudol ac anstatudol, yn gweithio gyda'r troseddwr/cyfranogwr trwy gytundeb partneriaeth gydag NPS neu CRC.
Llwybr Anhwylderau Personoliaeth	Darparu llwybr o wasanaethau â dealltwriaeth seicolegol ar gyfer grŵp troseddwy sy'n fwy tebygol o gael anhwylder personoliaeth difrifol ac sy'n cyflwyno risg uchel o achosi niwed i eraill neu risg uchel o aildroseddu mewn ffordd niweidiol.
Cyfarwyddwr adrannol gwasanaeth prawf	Uwch arweinydd y NPS sy'n arwain un o'r saith adran NPS
Swyddog prawf	Dyma'r term a ddefnyddir i ddisgrifio swyddog cyfrifol sydd wedi cwblhau cymhwyster proffesiynol addysg uwch. Mae enw'r cymhwyster a chynnwys yr hyfforddiant yn amrywio yn dibynnu ar bryd y cwblhawyd y cwrs. Mae'r swyddogion hyn yn rheoli achosion mwy cymhleth.
Adroddiad cyn dedfrydu	Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw adroddiad a baratoir ar gyfer y llys, p'un ai ei fod wedi ei gyflwyno ar lafar neu yn ysgrifenedig.
Darparwyr	Mae darparwyr yn rhoi gwasanaeth neu fewnbwn a gomisiynwyd gan ac a darparwyd dan contract NPS neu'r CRC. Mae hyn yn cynnwys y staff a'r gwasanaethau a ddarperir dan y contract, hyd yn oed pan fydd y rhain wedi eu hintegreiddio neu eu lleoli o fewn CRC neu'r NPS.
PSO	Swyddog Gwasanaethau Prawf: Dyma'r term a ddefnyddir i ddisgrifio swyddog cyfrifol a recriwtiwyd yn wreiddiol heb gymhwyster proffesiynol. Mae modd iddynt fynychu hyfforddiant lleol er mwyn cymhwyso fel swyddog gwasanaethau prawf neu i adeiladu ar y sgiliau sydd ganddynt i gymhwyso fel swyddog prawf. Mae modd iddynt reoli pob math o achos ac eithrio'r rhai mwyaf cymhleth yn dibynnu ar lefel eu hyfforddiant a'u profiad. Mae rhai PSOs yn gweithio yn y llys, lle mae eu dyletswyddau yn cynnwys ysgrifennu adroddiadau cyn-dedfrydu.
QDO	Swyddogion datblygu ansawdd: rôl arbenigol o fewn y NPS. Mae QDOs yn gweithio yn agos gyda rheolwyr lleol, tiwtoriaid ymarfer a'r staff gweithredol i hyrwyddo ac i wella ansawdd y gwaith gyda throseddwy a dioddefwyr.
RAR	Gofyniad Gweithgaredd Adsefydlu: Ers Chwefror 2015, pan weithredwyd Deddf Adsefydlu Troseddwy 2014, gall y llysoedd bennu nifer o ddiwrnodau RAR mewn gorchymyn; y gwasanaethau prawf sy'n penderfynu ar ba waith yn union sydd i'w wneud yn ystod y diwrnodau RAR a ddyfarnwyd.
Cerdyn cyfradd	Cyfarwyddiadur gwasanaethau a gynigir gan y CRC i'w ddefnyddio gan y NPS wrth weithio gyda throseddwy, gan fanylu ar y pris.

Swyddog cyfrifol	Term a ddefnyddir i ddisgrifio'r swyddog (a elwid yn 'rheolwr troseddwr' yn gynt) sydd â'r prif gyfrifoldeb am reoli achos.
RoSH	Risg o Niwed Difrifol: term a ddefnyddir yn OASys. Dosbarthir pob achos fel un sy'n cyflwynorisg isel/canolog/uchel/uchel iawn o achosi niwed difrifol i eraill. Mae Arolygiaeth Prawf EM yn defnyddio'r term hwn wrth gyfeirio at y system ddosbarthu, ond mae'n defnyddio'r term mwy gyffredin risg o niwed wrth gyfeirio at y dadansoddiad sy'n gorfod digwydd er mwyn penderfynu lefel y dosbarthiad. Mae hyn yn helpu egluro'r gwahaniaeth rhwng y tebygolrwydd o rywbeth yn digwydd ac effaith/difrifoldeb y digwyddiad. Mae'r term Risg o Niwed Difrifol yn ymgorffori effaith 'ddifrifol' yn unig, lle mae'r term 'risg o niwed' yn golygu bod y sylw angenrheidiol yn gallu cael ei roi i'r troseddwr hynny lle mae ymddygiad niweidiol effaith/difrifoldeb is yn debygol.
SFO	Trosedd Pellach Difrifol: lle mae unigolyn sy'n destun (neu yn destun diweddar) gwasanaeth prawf yn cyflawni un o nifer o droseddau difrifol (megis llofruddiaeth, dynladdiad neu dreisio). Mae rhaid i'r CPC a'r/neu'r NPS hysbysu HMPPS o unrhyw unigolyn o'r fath sy'n cael ei gyhuddo o un o'r troseddau hyn. Mae adolygiad yn cael ei gynnal wedyn gyda'r bwriad o nodi pa wersi sydd wedi'u dysgu
Grŵp Integreiddio Gwasanaethau	Cyfarfod o uwch reolwyr o'r CRC a'r NPS i ystyried materion gweithredol a strategol yn dilyn <i>Trawsnewid Adsefydlu</i>
SPO	Uwch swyddog prawf: rheolwr llinell cyntaf yn y NPS
Gorchymyn dedfryd ohiriedig	Dedfryd warchodol sy'n cael ei hatal a'i chyflawni yn y gymuned
Rhanddeiliad	Person, grŵp neu sefydliad sydd â hawl uniongyrchol neu anuniongyrchol neu fuddiant yn y sefydliad oherwydd y gall gael effaith ar y sefydliad, neu gael ei effeithio gan y sefydliad. Mae enghreifftiau o randdeiliaid allanol yn cynnwys perchnogion (cyfranddallwyr), cwsmeriaid, darparwyr, partneriaid, asiantaethau llywodraeth a chynrychiolwyr o'r gymuned. Mae enghreifftiau o randdeiliaid mewnol yn cynnwys pobl neu grwpiau o bobl o fewn y sefydliad.
Cadwyn gyflenwi	Darparwyr gwasanaethau a gomisiynwyd gan y CRC.
Trwy'r Porth	Mae gwasanaethau Trwy'r Porth wedi'u llunio i helpu'r rhai hynny sydd wedi eu dedfrydu i fwy nag un diwrnod yn y carchar i setlo'n ôl yn y gymuned wedi iddynt gael eu rhyddhau a derbyn cefnogaeth adsefydlu er mwyn iddynt allu myndroeu eu bywydau er gwell.
<i>Trawsnewid Adsefydlu</i>	Rhaglen y llywodraeth ynghylch dull rheoli troseddwr yng Nghymru a Lloegr ers Mehefin 2014
Gwaith di-dâl	Gall y llys gynnwys gofyniad gwaith di-dâl fel rhan o orchymyn cymunedol. Gellir gofyn i droseddwr weithio am hyd at 300 awr ar brosiectau cymunedol dan oruchwyliaeth. Ers Chwefror 2015, mae gwaith di-dâl wedi ei drosglwyddo gan CRCs.
VLO	Swyddog cyswllt dioddefwyr: Yn gyfrifol am roi gwasanaethau i ddioddefwyr yn unol â chyfrifoldebau statudol y NPS.
ViSOR	Cronfa ddata genedlaethol gyfrinachol yw ViSOR sy'n cefnogi MAPPA. Mae'n hwyluso'r rhannu effeithiol o wybodaeth a chudd-

	wybodaeth am droseddwyr treisgar a throseddwyr rhyw rhwng tair Asiantaeth Gyfrifol MAPPA (yr heddlu, gwasanaeth prawf a charchardai). Nid yw ViSOR yn acronym bellach ond dyma enw ffurfiol y gronfa ddata.
Adnodd rheoli llwyth gwaith	Adnodd i gyfrifo llwyth gwaith cyfan gan swyddog cyfrifol unigol. Mae'n ystyried niferoedd a mathau o achosion
Gwasanaeth/tim troseddau ieuencid	Gwasanaeth wedi'i ariannu gan awdurdod lleol yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc 10 i 18 oed sy'n mynd i helynt gyda'r heddlu. Maent yn edrych ar gefndir y person ifanc ac yn ceisio eu helpu i gadw i ffwrdd o droseddu. Maent yn cynnal rhaglenni atal troseddau, helpu pobl ifanc sy'n cael ei arestio, helpu poblifanc a'u teuluoedd yn y llys, goruchwyllo pobl ifanc yn cyflawni dedfrydau cymunedol a gweithio gyda phobl ifanc yn y ddalfa.